

Dull CNC o reoleiddio saethu a dal adar gwylt a dinistrio wyau a nythod

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgyngoriad

Mawrth 2021

Cynnwys

Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn	2
Diben yr adroddiad hwn	3
Cefndir yr ymgynghoriad	3
Sut cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried?	4
Crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.....	5
Ein dull cyffredinol o drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt	7
Trwyddedau cyffredinol.....	7
Cwestiynau 7 ac 8: Egwyddorion ar gyfer penderfynu pryd mae trwyddedau cyffredinol yn briodol.....	7
Cwestiynau 9 a 10: Rhywogaethau targed ar drwyddedau cyffredinol	9
Cwestiynau 11 i 14: Adolygu ac ailddyroddi trwyddedau cyffredinol.....	13
Cwestiwn 15: Ffurf cyhoeddi trwyddedau cyffredinol	17
Cwestiynau 16 i 18: Amodau a thelerau safonol ar gyfer trwyddedau cyffredinol.....	19
Cwestiynau 19 ac 20: Cydymffurfio â gofynion safleoedd gwarchoddedig wrth ddyroddi trwyddedau cyffredinol.....	23
Trwyddedau penodol	25
Cwestiynau 21 a 22: Ceisiadau ac adroddiadau am drwyddedau penodol.....	25
Awdurdodi'r defnydd o ddulliau marwol.....	27
Cwestiynau 23 a 24: Egwyddorion trwyddedu'r defnydd o ddulliau marwol.....	27
Cwestiynau 25 i 27: Y dulliau marwol y dylid eu hawdurdodi.....	28
Rheoleiddio'r defnydd o faglau cawell	31
Cwestiynau 28 a 29: Mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio	31
Cwestiynau 30 a 31: Y defnydd o abwyd cig mewn maglau cawell	32
Cwestiynau 32 i 34: Dull lladd adar sydd wedi'u dal	34
Cwestiynau 35 a 36: Archwilio maglau cawell	35
Cwestiwn 37: Y defnydd o adar denu y mae eu hadenydd wedi'u tocio	36
Cwestiwn 38: Gweinyddu trwyddedau sy'n caniatáu'r defnydd o faglau cawells	37
Cwestiwn 39: Cofrestriad neu dagio maglau cawell gorfodol.....	38
Cwestiwn 40: Safbwyntiau ychwanegol ar ddefnyddio maglau cawell.....	39
Ystyried dulliau rheoleiddiol eraill.....	40
Cwestiwn 41: Ystyried dulliau rheoleiddiol eraill	40

Ein dull ar gyfer trwyddedu rheolaeth farwol ar adar gwyllt mewn cyd-destunau penodol.....	42
Atal difrod difrifol neu ledaeniad clefydau i dda byw, bwydydd, cnydau, llysiâu neu ffrwythau.....	42
Cwestiwn 42: Priodoldeb dull trwyddedu cyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol neu ledaeniad clefydaue.....	42
Cwestiynau 43 a 44: Diffinio pa rywogaethau y gellir eu lladd ac at ba ddibenion.....	43
Cwestiwn 45: Adegau o'r flwyddyn y gellir defnyddio trwydded gyffredinol i atal difrod difrifol.....	45
Cwestiwn 46: Diffiniad o 'dda byw'.....	46
Cadwraeth adar, anifeiliaid neu blanhigion gwyllts	47
Cwestiwn 47 i 49: Ein dull cyffredinol o roi trwyddedau at ddibenion cadwraeth	47
Cwestiynau 50 i 56: Ein dull o benderfynu ar y rhywogaethau buddiol a'r rhywogaethau targed ar drwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth adar gwyllts	51
Diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd ac atal lledaeniad clefydau 57	
Cwestiynau 57 a 58: Rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar drwydded gyffredinol ar gyfer diogelu iechyd/diogelwch y cyhoedd.....	57
Cwestiwn 59: Ein dull gweithredu ar gyfer trwyddedu rheolaeth gwylanod.....	58
Gwarchod diogelwch yn yr awyr	60
Cwestiynau 60 a 61: Trwyddedu at ddiben gwarchod diogelwch yn yr awyr	60
Adar sy'n bwyta pysgod	61
Cwestiwn 62: Trwyddedau penodol ar gyfer rheolaeth farwol mulfrain a hwyaid danheddog.....	61
Cwestiynau 63 i 67: Datblygu offerynnau a dulliau ar gyfer trwyddedu rheolaeth farwol ar fulfrain a hwyaid danheddog.....	62
Rhywogaethau adar estron goresgynnol.....	65
Cwestiynau 68 a 69: Trwyddedu rheolaeth farwol ar rywogaethau adar estron goresgynnols	65
Materion eraill yn ymwneud â sut mae CNC yn rheoleiddio rheolaeth farwol ar adar gwyllt	67
Cwestiwn 70: Safbwyntiau neu sylwadau eraill	67
Atodiad 1: Nifer yr ymatebwyr fesul cwestiwn.....	71
Atodiad 2: Sefydliadau a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad n	85

Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

BBS	Breeding Bird Survey
BoCC	Birds of Conservation Concern
BTO	British Trust for Ornithology
Defra	Department for Environment, Food and Rural Affairs
IUCN	International Union for the Conservation of Nature

Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gennym ar ein cynigion yn ymwneud â'r adolygiad o ddull CNC o reoleiddio saethu a dal adar gwyllt a dinistrio eu hwyau a'u nythod.

Cefndir yr ymgynghoriad

Mae gan holl adar gwyllt Cymru warchodaeth gyfreithiol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o bwerau i awdurdodi eraill i ladd neu gymryd rhywogaethau penodol o adar gwyllt, wyau a nythod at ddibenion penodol, er enghraifft er mwyn atal niwed difrifol i gnydau, da byw neu bysgodfeydd, i warchod iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, neu i warchod rhywogaethau eraill o fywyd gwyllt.

Rydym wedi bod yn ymgymryd ag adolygiad o sut rydym yn arfer y pwerau hyn. Mae'r adolygiad wedi bod yn ystyried y mathau gwahanol o ganiatadau rydym yn eu cynnig a'r prosesau a ddefnyddir i gyflawni'r gweithgareddau hyn i geisio gwneud gwelliannau.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan allweddol o'r adolygiad. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos o 19 Awst 2021 tan 11 Tachwedd 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion o ran y dull y byddai CNC yn ei ddefnyddio i reoleiddio saethu a dal adar gwyllt yng Nghymru a dinistrio wyau a nythod. Roedd yn gofyn cyfres o gwestiynau am ystod o gynigion penodol, ynghyd â nifer o gwestiynau mwy agored. Roedd y cynigion a'r cwestiynau wedi'u nodi mewn papur ymgynghori manwl a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir a dolenni i ddogfennau perthnasol eraill.

Gofynnwyd i ymatebwyr gyflwyno eu hymatebion gan ddefnyddio Hwb Ymgynghori CNC, sy'n defnyddio'r offeryn ymgynghori ar-lein 'Citizen Space'. O'r dudalen ymgynghori ([YMA](#)), gallai ymatebwyr weld cwestiynau'r ymgynghoriad, y ddogfen ymgynghori a gwybodaeth berthnasol arall. Trefnwyd y cwestiynau mewn adrannau, a oedd yn caniatáu i ymatebwyr hepgor adrannau os nad oeddent am ateb pob cwestiwn. Gellid cadw ymatebion oedd wedi'u cwblhau'n rhannol a dychwelyd atynt yn ddiweddarach.

Unwaith y byddai ymateb wedi'i gyflwyno, ni ellid ei newid na'i dynnu'n ôl. Derbyniodd yr ymatebwyr rif ymateb unigryw ac roeddent yn gallu gofyn am gopi PDF o'u hymateb.

Roedd ymatebwyr nad oeddent yn gallu ymateb ar-lein yn gallu cyflwyno ymatebion trwy e-bost neu drwy'r post.

Sut cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried?

Defnyddiodd ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fethodoleg ansoddol a elwir yn ddadansoddiad thematig, sy'n ddull a gydnabyddir yn eang at ddadansoddi data ansoddol sy'n galluogi ymchwilyr i gynhyrchu mewnwelediadau a chysyniadau sy'n deillio o ddata. Mae dadansoddi thematig yn cynnwys darllen trwy set ddata (fel tystebau personol, ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau, grwpiau ffocws, trawsgrifiadau o gyfweiliadau) a nodi patrymau ystyr ar draws y data. Mae'r broses yn casglu profiadau, safbwyntiau a barn yr ymatebwyr.

Nod y dadansoddiad thematig a gynhaliwyd gennym oedd nodi'r themâu yn yr ymatebion i bob cwestiwn. Mae 'thema' yn y cyd-destun hwn yn golygu barn, rheswm neu safbwynt penodol ar y mater a godwyd gan gwestiwn yr ymgynghoriad dan sylw, megis rheswm dros gytuno neu anghytuno ag X, neu farn y dylai CNC wneud Y.

Fe wnaethom adeiladu'r themâu o'r ymatebion eu hunain, gan ddiffinio'n raddol y themâu a oedd yn dod i'r amlwg wrth i bob ymateb gael ei ddarllen yn ei dro, ac ychwanegu themâu pellach pan godwyd mater newydd, neu aseinio sylw neu farn i un neu fwy o'r themâu a nodwyd eisoes. Y nod oedd creu crynodeb cynhwysfawr o'r ymatebion a dderbyniwyd, nid cyflwyno'n fanwl bob pwynt a wnaed yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ar gyfer pob cwestiwn, rydym wedi adrodd ar nifer yr ymatebwyr a atebodd, a lle bynnag y bo'n berthnasol, cyfran yr ymatebwyr a atebodd 'ie' neu 'na'. Fodd bynnag, nid ydym wedi rhoi arwyddocâd arbennig i unrhyw elfennau meintiol o'r data, ac nid ydym wedi ceisio meintoli mynychder themâu penodol yn yr ymatebion i bob cwestiwn. Er enghraifft, pe bai un ymatebwr yn tynnu ein sylw at broblem ymarferol fawr neu broblem nas rhagwelwyd gyda chynnig a oedd fel arall yn cael ei gefnogi gan lawer o ymatebion eraill, neu pe bai ymatebwr wedi tynnu sylw at fantais sylweddol cynnig a oedd fel arall yn 'amhoblogaidd' yn yr ymatebion, nid oedd y ffaith mai dim ond un ymatebwr a wnaeth y sylw hwn yn ei wneud yn ddibwys. Hefyd, nid ydym wedi gwahaniaethu'n sylfaenol rhwng ymatebion sefydliadol ac unigol, nac wedi gwneud unrhyw ragdybiaeth y dylai'r cyntaf gael mwy o bwysau, gan ein bod yn credu mai cynnwys yr ymatebion sydd â'i rinweddau annibynnol ei hun. I grynhoi, nid yw adrodd ar thema benodol yn y ddogfen hon yn dibynnu ar nifer neu hunaniaeth yr ymatebwyr sy'n mynegi'r thema honno.

Yn olaf, wrth adolygu a chrynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau hynny a ofynnodd i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â chynnig a gyflwynwyd gennym ai peidio, rydym wedi rhoi sylw arbennig i'r rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn anghytuno â'n cynigion. Yn y ddogfen ymgynghori, rydym yn nodi ein rhesymeg ar gyfer pob cynnig, ac os oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gwneud yr un dadleuon, neu ddadleuon tebyg iawn, o blaid cynnig, nid ydym yn gyffredinol wedi eu haildatgan yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd

Cawsom 621 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nifer yr ymatebion i bob cwestiwn

Dangosir nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i bob cwestiwn ymgynghori, gan gynnwys cyfran yr atebion Ie/Na, yn Atodiad 1.

Sut y cyflwynwyd ymatebion

Cyflwynwyd 614 o ymatebion (99%) ar-lein gan ddefnyddio Hwb Ymgynghori CNC, anfonwyd saith ymateb (1%) trwy e-bost, ac ni dderbyniwyd yr un ohonynt drwy'r post.

Iaith yr ymatebion

Cyflwynwyd 620 o ymatebion yn Saesneg; cyflwynwyd un ymateb yn Gymraeg.

Ffurf yr ymatebion

Roedd 620 o ymatebion yn ymdrin yn uniongyrchol ag un neu fwy o gwestiynau'r ymgynghoriad. Mynegwyd un ymateb trwy e-bost mewn termau mwy cyffredinol ac nid oedd yn ateb cwestiynau'r ymgynghoriad yn benodol.

Cwestiwn 4: Unigolion/sefydliadau

(cwestiwn gorfodol)

Cyflwynwyd 32 o ymatebion (5%) ar ran sefydliadau, a 589 (95%) gan unigolion. Rhestrir y sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad 2.

Cwestiwn 5: Prif reswm dros y diddordeb

(cwestiwn gorfodol)

Dangosir y prif resymau a roddwyd gan ymatebwyr dros eu diddordeb ym mhwnc yr ymgynghoriad yn Ffigur 1.

Cwestiwn 6: Lleoliad daearyddol yr ymatebwyr

(cwestiwn gorfodol)


Dangosir y lleoliad daearyddol a roddwyd gan ymatebwyr yn Ffigur 2.

Cwestiwn 1: Cyfrinachedd


(cwestiwn gorfodol)

Gofynnodd 99 o ymatebwyr (16%) i'w hymatebion gael eu cadw'n gyfrinachol. Nid oes unrhyw ran o'r wybodaeth yn y ddogfen hon i'w phriodoli i unrhyw ymatebwyr unigol.

Ffigur 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl y prif reswm dros eu diddordeb



Ffigur 2: Lleoliad daearyddol yr ymatebwyr



Ein dull cyffredinol o drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt

Trwyddedau cyffredinol

Cwestiynau 7 ac 8: Egwyddorion ar gyfer penderfynu pryd mae trwyddedau cyffredinol yn briodol

Rydym yn cynnig mabwysiadu set o egwyddorion a fydd yn gymwys i benderfynu ym mha sefyllfaoedd y bydd dyroddi trwydded gyffredinol yn briodol.

C7. Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddorion rydym yn eu cynnig ar gyfer penderfynu a ddylid dyroddi trwydded gyffredinol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae angen sail dryloyw ar gyfer dyroddi trwyddedau cyffredinol.
- Mae'r egwyddorion yn cyd-fynd yn dda ag ymagwedd Defra. Mae llawer o ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol yn gweithio yng Nghymru a Lloegr, felly mae dull cyffredin yn bwysig ac yn cael ei groesawu.
- Mae'r egwyddorion yn iawn, ond gallent fynd ymhellach neu gael eu diffinio'n well. Er enghraifft:
 - mae angen cymhwyso'r egwyddorion i gynnwys yr angen i reoli crynodiadau lleol o rywogaethau pla;
 - mae'r egwyddorion yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion moesegol ar gyfer rheoli bywyd gwyllt, ond mae angen eu hannog yn gryfach i osgoi a/neu ddatrys gwrthdaro bywyd gwyllt cyn troi at reolaeth farwol;
 - mae Egwyddor 2 yn dibynnu ar dystiolaeth o effeithiolrwydd dulliau marwol wrth fynd i'r afael â phroblemau, ond nid oes fawr ddim dystiolaeth, os o gwbl, i ba raddau y defnyddir trwyddedau cyffredinol, gan nad oes angen unrhyw adrodd arnynt gan ddefnyddwyr;
 - mae Egwyddor 7 yn iawn, ond dylai olygu bod trwyddedau cyffredinol ar wahân ar gyfer pob rhywogaeth darged.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae egwyddorion 1 i 4 yn ddiangen: maent yn dyblygu'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer trwyddedu.
- Anghytuno â chymhwysiad ymarferol Egwyddor 5 yn seiliedig ar statws coch/oren/gwyrdd y rhywogaeth darged yn ôl asesiadau Adar o Bwys Cadwraeth (BoCC):

- mae'n diystyru maint y gwir boblogaeth, er enghraifft ni fyddai'n caniatáu rheoli rhywogaeth sydd ar y rhestr oren yr oedd ei phoblogaeth yn dal i fod ymhell uwchlaw'r lefelau hanesyddol, ac ni ddylai'r ffaith bod rhywogaeth yn dirywio ynddo'i hun fod yn sail ddigonol i'w heithrio o drwyddedau cyffredinol (gydag cyfeiriad penodol at y bidden);
 - mae CNC yn cynnig defnyddio system restru coch/oren BoCC gorsym, a dylai ystyried meini prawf BoCC unigol ac nid y lefel rhybudd coch/oren gyffredinol yn unig, neu ddefnyddio sail wahanol ar gyfer asesu statws cadwraeth, megis asesiad 'rhestr goch' yr IUCN o'r perygl o ddiflannu;
 - gallai greu canlyniadau gwrthnysig, er enghraifft gallai poblogaeth fach, agored iawn i niwed, ond sefydlog, fod ar y rhestr werdd, tra gallai poblogaeth sy'n dal yn doreithiog a chadarn iawn sy'n dangos tystiolaeth o ddirywiad fod ar y rhestr oren;
 - mae'r asesiad tair blynedd arfaethedig (hanner ffordd rhwng asesiadau BoCC chwe blynedd) yn rhy aml ac yn ddiangen o feichus.
- Angen hyblygrwydd wrth gymhwyso'r egwyddorion – mae'n rhy gaeth i ddweud bod rhaid bodloni pob un ohonynt:
 - mae egwyddorion 5 a 6 yn rhy anhyblyg, er enghraifft os yw adar gwyllt yn achosi difrod difrifol neu berygl i iechyd y cyhoedd, mae'r angen i allu eu rheoli yn drech na'r pryderon ynghylch goblygiadau posibl i'w statws cadwraeth;
 - angen cafeat synnwyr cyffredin, gan ganiatáu gwyrto oddi wrth egwyddorion mewn achosion penodol os oes rhesymau da dros wneud hynny;
 - nid oes tystiolaeth bod rheoli unrhyw rywogaeth o dan drwyddedau cyffredinol wedi cyfrannu at ddirywiad ei phoblogaeth.
 - Mae egwyddor 6 yn methu'r pwynt: mae tystiolaeth bod rheoli brain o dan drwyddedau cyffredinol yn cyfrannu at gadwraeth bywyd gwyllt, yn hytrach na bod yn risg i gadwraeth bywyd gwyllt. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i reolwyr tir reoli brain, a all fod yn niweidiol i gadwraeth.
 - Mae Egwyddor 3 yn broblematic: beth sy'n ddewis amgen boddhaol i drwyddedau cyffredinol, neu beth nad yw'n ddewis amgen boddhaol; mae'n rhy agored i ddehongliadau gwahanol.
 - Methu â chefnogi'r egwyddorion hyn oherwydd anghytundeb â thrwyddedau cyffredinol eu hunain. Ni ddylai CNC roi trwyddedau cyffredinol o gwbl, felly dylai egwyddorion ar gyfer gwneud hynny fod yn amherthnasol.
 - Os bydd CNC yn penderfynu mabwysiadu'r egwyddorion hyn, dylid eu cyhoeddi a dylent fod yn eglur, a dylid ei gwneud hi'n glir a ydynt yn berthnasol ar y cyd neu mewn hierarchaeth.
 - Dylai egwyddorion 1 a 2 fod yn gadarnach, ac mae angen tystiolaeth wyddonol gadarn yn dangos yr angen am reolaeth adar gwyllt ac effeithiolrwydd hynny.

- Mae egwyddorion 3 a 4 yn seiliedig ar ragosodiad ffug: mae trwyddedau penodol bob amser yn ddewis amgen i drwyddedau cyffredinol.
- Mae Egwyddor 5 yn seiliedig ar ragosodiad ffug: mae rhoi unrhyw rywogaeth ar drwydded gyffredinol yn peryglu ei statws cadwraeth oherwydd ei fod yn caniatáu lladd diderfyn.
- Mae Cwestiwn 7 yn afresymol o ran disgwyl ateb ie/na syml i set gymhleth o egwyddorion.

C8. Ydych chi'n meddwl bod egwyddorion neu brofion eraill y dylem eu defnyddio cyn penderfynu dyroddi trwydded gyffredinol?

Themâu yn yr ymatebion

- Egwyddor ychwanegol y dylai cymhwyso'r lleill i gyd gael ei gefnogi gan dystiolaeth wyddonol glir.
- Egwyddor sy'n sefydlu mai dim ond fel rhan o gyfres o fesurau i leihau gwrthdaro bywyd gwyllt a'r angen am reolaeth farwol y dylid defnyddio rheolaeth farwol o dan drwyddedau cyffredinol.
- Dylai fod 'man cychwyn' gwahanol ar gyfer egwyddorion:
 - Dylid canolbwyntio ar gyfiawnhau tynnu rhywogaethau o drwyddedau cyffredinol, hynny yw, dylai CNC fod yn ystyried sut y bydd tynnu rhywogaeth oddi ar drwydded gyffredinol yn effeithio, er enghraifft, ar gadwraeth, incwm ffermydd neu iechyd a diogelwch y cyhoedd, yn hytrach nag edrych ar y dystiolaeth ategol ar gyfer cynnwys rhywogaeth ar drwyddedau cyffredinol yn unig;
 - Y ffordd anghywir o gwmpas yw'r 'baich profi' ar gyfer Egwyddor 6 – dylai'r baich profi fod ar sefydlu na ddylai unrhyw newid i drwydded gyffredinol effeithio'n andwyol ar statws cadwraeth rhywogaethau eraill.
- Dylai CNC gymhwyso dadansoddiad cost a budd i benderfyniadau trwydded gyffredinol trwy ystyried manteision rheoli adar gwyllt (gan gynnwys lles anifeiliaid, diogelu cynydau, cadwraeth natur, iechyd a diogelwch y cyhoedd) yn erbyn yr effaith ar boblogaeth rhywogaeth darged y drwydded. Efallai y gellir cyfiawnhau gostyngiad ym mhoblogaeth y rhywogaeth darged.
- Wrth benderfynu ar a yw trwydded gyffredinol yn briodol, dylid ystyried hefyd faint o drwyddedau penodol y gwneid cais amdanynt, a'u cyhoeddi, pe na bai trwydded gyffredinol yn cael ei rhoi ar gyfer cyfuniad penodol o ddiben a rhywogaeth.

Cwestiynau 9 a 10: Rhywogaethau targed ar drwyddedau cyffredinol

Nid ydym yn ystyried bod piöd yn addas i'w cynnwys ar drwyddedau cyffredinol yng ngoleuni tystiolaeth o ddirywiad yn eu poblogaeth yng Nghymru.

C9a. Ydych chi'n meddwl bod pïod yn addas i'w cynnwys ar drwyddedau cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni'r dirywiad yn eu poblogaeth yng Nghymru?

Themâu yn yr ymatebion gan y rhai a ddywedodd eu bod yn meddwl bod pïod yn addas i'w cynnwys ar drwyddedau cyffredinol

- Heriau ac amheuon ynghylch cadernid a dibynadwyedd asesiad BTO o'r gostyngiad cyffredinol ym mhoblogaeth pïod Cymru:
 - nid yw'n cyfrif am amrywiadau rhanbarthol/lleol;
 - mae setiau data eraill (fel o Wyllo Adar yr Ardd) yn dangos niferoedd cynyddol o bïod;
 - hanesion personol / arsylwadau llawer o unigolion nad yw niferoedd pïod yn dirywio yng Nghymru;
 - mae bylchau sylweddol yng Nghymru yn nata arolwg y BBS y mae asesiadau BTO yn seiliedig arnynt.
- Mae angen ystyried maint y boblogaeth pïod. Dim ond ystyried y gostyngiad diweddar yn anwybyddu'r pwynt allweddol, sef, o'i weld yng nghyd-destun bod poblogaeth pïod yn dal i fod yn llawer uwch nag yr oedd yn y 1970au, na ddylai unrhyw ddirywiad (neu sefydlogi) diweddar yn y boblogaeth fod yn achos o bryder am ei statws cadwraeth.
- Mae effaith ysglyfaethu pïod ar rywogaethau adar eraill wedi'i dogfennu'n dda yn y llenyddiaeth ac mae cadwraethwyr yn ei deall – mae angen eu rheoli, hyd yn oed os ydynt yn dirywio.
- Dylai'r risgiau y mae pïod yn eu hachosi i gadwraeth rhywogaethau prin neu rhywogaethau dan fygythiad fod yn drech na'r pryderon am unrhyw ddirywiad ym mhoblogaethau pïod.
- Oherwydd y difrod y maent yn ei wneud i gnydau a da byw – mae angen eu rheoli hyd yn oed os ydynt yn dirywio.
- Yn ôl arolygon aelodaeth sefydliadau saethu, mae pïod yn destun lefelau sylweddol o reolaeth. Pe byddent yn cael eu tynnu oddi ar drwyddedau cyffredinol a phe bai hynny'n arwain at leihad sylweddol yn lefel y rheolaeth, gallai fod cynnydd sylweddol yn y boblogaeth, gan arwain at lefelau ysglyfaethu uwch ac felly canlyniadau i rywogaethau eraill. Mae angen deall yn well beth yw goblygiadau tynnu pïod o drwyddedau cyffredinol cyn gwneud y newid hwn.

Themâu yn yr ymatebion gan y rhai a ddywedodd eu bod yn meddwl nad yw pïod yn addas i'w cynnwys ar drwyddedau cyffredinol

- Er ei bod yn wir bod y duedd o ran poblogaeth pïod ers y 1970au yn dangos cynnydd yn hytrach na gostyngiad mewn pïod, mae'n anniogel dibynnu ar y dystiolaeth hon gan mai ychydig iawn o bwyntiau data yng Nghymru oedd gan setiau data cynharach.

- Er mwyn sicrhau cysondeb: oherwydd bod y data'n dangos yn glir bod niferoedd piöod yn dirywio, dylai CNC gymryd yr un dull ag ar gyfer y dirywiad ym mhoblogaeth gwyfanod, a'u tynnu oddi ar drwyddedau cyffredinol.
- Waeth beth fo statws poblogaeth y piöod, nid oes digon o dystiolaeth o effaith piöod ar rywogaethau eraill nac ar fuddiannau amaethyddol i gyfiawnhau eu cynnwys ar drwyddedau cyffredinol. Dylai fod angen trwyddedau penodol, lle mae'n rhaid dangos yr achos dros reoli piöod yn y ceisiadau am drwyddedau.
- Traddodiad gwledig yw rheoli piöod yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei wneud ar sail tystiolaeth sy'n dangos ei fod yn effeithiol neu'n angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau a achosir gan biöod i dda byw.
- Nid yw CNC wedi gwneud yn glir pa rywogaethau penodol y disgwylir iddynt elwa o reoli piöod dan GL004.
- Dylai CNC naill ai symud i drwyddedau penodol ar gyfer piöod neu roi trwydded dosbarth ar gyfer rheoli piöod, gyda defnyddwyr yn gorfod cofrestru i ddefnyddio'r drwydded a darparu adroddiadau, fel y gall CNC gasglu data ar y niferoedd a laddwyd i lywio polisi yn y dyfodol (gan gynnwys a oes angen rheolaeth mewn rhai ardaloedd, ond nad oes ei hangen mewn ardaloedd eraill).

C9b. Os gwnaethoch ateb 'Nac ydw' i Gwestiwn 9, beth rydych yn meddwl y dylen ni ei wneud?

- **Peidio â chynnwys piöod ar drwyddedau cyffredinol yn syth, fel na fyddent yn cael eu cynnwys ar unrhyw drwyddedau cyffredinol rydym yn eu dyroddi yn 2022**
- **Aros nes y cyhoeddir asesiad nesaf BoCC Cymru cyn gwneud y penderfyniad**
- **Defnyddio dull arall**
- Dylai CNC wneud penderfyniad pan gyhoeddir y BoCC nesaf, er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail tuedd glir ac asesiad cadarn, sy'n bwysig o ran cael rhanddeiliad i gydnabod a derbyn yn ehangach y dirywiad yn y boblogaeth.
- Dylid eu tynnu o drwyddedau cyffredinol yn syth, i ddangos gweithredu cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng natur/bioamrywiaeth.

C10. Ydych chi'n meddwl bod rhywogaethau eraill a allai fod yn addas i'w cynnwys ar drwydded gyffredinol?

Rhestr lawn o rywogaethau a awgrymwyd mewn un neu fwy o ymatebion i'r ymgynghoriad

- Brain: brain tyddyn, ydfrein, piöod, jac-dos, sgrechod y coed, cigfrain.
- Colomennod a thurturod: colomennod gwyllt, ysguthanod, turturod torchog.

- Gwylanod: gwylanod yn gyffredinol, gwylanod y gweunydd, gwylanod y penwaig, gwylanod cefnddu lleiaf, gwylanod cefnddu mwyaf.
- Drudwy.
- Adar sy'n bwyta pysgod: crehyrod glas, mulfrain, hwyaid danheddog, hwyaid brongoch, môr-hwyaid, hwyadwyddau yn gyffredinol.
- Gwyddau a hwyaid: gwyddau Canada, gwyddau llwydion, gwyddau a hwyaid croesryw.
- Rhywogaethau anfrodorol eraill: pob rhywogaeth anfrodorol, gwyddau yr Aifft, paracitiaid torchog, hwyaid cribog, hwyaid coch.
- Adar ysglyfaethus: adar ysglyfaethus yn gyffredinol, bwncathod.
- Adar hela: ffesantod, petris coesgoch.
- Mamaliaid: llwynogod, gwiwerod llwyd, mincod, moch daear, cwningod.

Themâu yn ymwneud â rhywogaethau penodol

- Ydfraïn:
 - oherwydd eu bod yn dal ar y rhestr werdd er iddynt gael eu tynnu oddi ar drwyddedau cyffredinol yn 2019 oherwydd dirywiad, ac mae'n ymddangos bod y boblogaeth yn sefydlogi;
 - oherwydd bod y boblogaeth bresennol yn dal yn llawer uwch nag yn y 1970au, felly nid yw'r dirywiad yn peri pryder;
 - oherwydd y gall data'r BBS sy'n dangos dirywiad gael ei ystumio gan nifer fach o bwyntiau data yng Nghymru ac effeithiau rheolaeth leol;
 - oherwydd y dystiolaeth o'u heffeithiau, gan gynnwys fel yr adroddwyd gan APHA (difrod cynydau, lledaeniad afiechyd i dda byw, effaith ar rywogaethau adar sydd ar y rhestr goch).
- Mulfrain, oherwydd bod eu poblogaeth yng Nghymru yn cynyddu, ac am nad oes ganddynt unrhyw ysglyfaethwyr naturiol.
- Drudwy, oherwydd eu bod yn lledaenu afiechyd i dda byw a bwydydd.
- Gwylanod, i'w rheoli o amgylch safleoedd tirlenwi lle maent yn achosi problemau ar dir cyfagos.
- Cigfrain: nid yw o reidrwydd yn briodol i roi cigfrain ar drwydded gyffredinol, ond gall niferoedd uchel yn lleol achosi difrod sylweddol trwy ymosod ar dda byw, ac mae rhwystrau rhag cael trwyddedau penodol.
- Jac-dos, am resymau iechyd y cyhoedd.

Cwestiynau 11 i 14: Adolygu ac ailddyroddi trwyddedau cyffredinol

Roeddem yn cynnig adolygu trwyddedau cyffredinol yn rheolaidd, i benderfynu a oes angen unrhyw newidiadau yng ngoleuni tystiolaeth newydd, a bod yr adolygiad yn cael ei gefnogi gan banel cynghori allanol.

Roeddem yn cynnig parhau i roi trwyddedau cyffredinol yn flynyddol.

C11. Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol fod yn destun adolygiad rheolaidd?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Cytuno â'r rhesymau a roddwyd gan CNC yn y papur ymgynghori (gan gynnwys ystyried tystiolaeth newydd, i sicrhau bod trwyddedau cyffredinol yn addas i'r diben, yn gyfredol ac yn berthnasol, er mwyn sicrhau tryloywder).
- Byddai'n anghywir parhau i awdurdodi lladd adar gwyllt o dan drwyddedau cyffredinol heb adolygu'n rheolaidd yr angen i wneud hynny.
- Mae angen i bob penderfyniad blynyddol i roi trwydded gyffredinol gael ei gyfiawnhau gan y dystiolaeth. Mae angen cyfiawnhau lladd adar gwyllt yn hytrach na'i ystyried fel 'hawl'.
- Themâu yn ymwneud â phwysigrwydd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygu trwyddedau cyffredinol:
 - mae tystiolaeth berthnasol ar gyfer adolygu trwyddedau cyffredinol yn cynnwys tystiolaeth ar statws poblogaethau adar, ar faint o niwed a achosir, ac ar effeithiolrwydd dulliau rheolaeth farwol yn erbyn rhai nad ydynt yn farwol;
 - mae adolygiadau'n rhoi'r cyfle i ystyried tystiolaeth gyfoes, gan gynnwys o fannau eraill yn y byd;
 - rhaid i'r data a ddefnyddir mewn adolygiadau fod yn gadarn ac nid yn oddrychol, yn rhagfarnllyd nac yn seiliedig ar emosiwn;
 - mae'n rhaid i'r angen i ladd adar fod yn seiliedig ar dystiolaeth o niwed gwirioneddol yn hytrach na niwed canfyddedig ac ymlyniad wrth arferion gwledig traddodiadol;
 - dylai data adolygu ymwneud â thueddiadau hirdymor ac ni ddylai arwain at ymateb difeddwl i faterion tymor byr;
 - byddai'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygu trwyddedau cyffredinol yn fwy cadarn pe bai CNC yn casglu data ar y graddau y defnyddir trwyddedau cyffredinol.
- Dylai'r adolygiadau asesu a yw trwyddedau cyffredinol yn cyflawni eu dibenion.
- Dylai'r adolygiadau adlewyrchu'r newid yn y farn gyhoeddus.

- Dylai'r adolygiadau ystyried rhywogaethau sy'n dirywio a rhywogaethau sy'n cynyddu mewn niferoedd ac yn achosi problemau.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Ni ddylai CNC roi trwyddedau cyffredinol yn y lle cyntaf.
- Mae'r trwyddedau cyffredinol presennol yn gweithio'n dda, felly nid oes angen eu hadolygu.
- Bydd angen trwyddedau cyffredinol bob amser i reoli brain.
- Mae sefydlu proses reolaidd o adolygu trwyddedau cyffredinol yn fiwrocratiaeth ddiangen ac yn wastraff o arian cyhoeddus.
- Mae pryderon y bydd yr adolygiadau'n cael eu dylanwadu'n ormodol gan bwysau gwleidyddol a barn gyhoeddus anwybodus.

C12.Ydych chi'n cytuno â'r ffordd yr ydym yn bwriadu cynnal adolygiad rheolaidd o drwyddedau cyffredinol?

Themâu yn yr ymatebion

- Amllder adolygu:
 - mae cyfnod adolygu o dair blynedd yn rhy hir – dylai fod o leiaf bob blwyddyn neu ddwy (neu hyd yn oed bob hanner blwyddyn) er mwyn gallu gwneud newidiadau yn brydlon mewn ymateb i dystiolaeth newydd;
 - mae tair blynedd yn gyfnod amser priodol, ond ni ddylai hyn atal cael trwyddedau cyffredinol dwy flynedd, yn hytrach na thrwyddedau cyffredinol blwyddyn fel y cynigir;
 - dylai fod mecanwaith ffurfiol ar gyfer ystyried gwrthwynebiadau i drwyddedau cyffredinol yn ystod eu cyfnod dilys;
 - yn hytrach na chyfnod adolygu a bennwyd ymlaen llaw, dim ond pan fo angen y dylid cynnal adolygiadau, megis pan fydd dystiolaeth newydd sylweddol;
 - mae adolygiadau tair blynedd yn iawn, ond dim ond os caiff amodau a thelerau trwyddedau cyffredinol eu gwneud yn llawer llymach, fel arall dylai adolygiadau fod yn flynyddol;
 - gallai CNC barhau i adolygu'r cyfnod adolygu ei hun, er enghraifft symud i adolygiadau llai aml dros amser os nad oes unrhyw broblemau neu faterion yn codi;
 - dylai adolygiadau fod bob chwe blynedd i fod yn unol ag asesiadau BoCC cyhoeddedig;
 - amleddau adolygu eraill a awgrymwyd oedd: dwy flynedd, tair blynedd, pum mlynedd, tair i bum mlynedd, chwe blynedd, 25 mlynedd, byth.

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y broses adolygu:
 - yn ogystal â phanel cynghori, dylai adolygiadau gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid;
 - pryderon ynghylch cyfansoddiad priodol/teg y panel cynghori a'r risg o ragfarn, naill ai tuag at 'fuddiannau o blaid saethu' neu tuag at 'fuddiannau gwrth-saethu';
 - dylai'r panel cynghori gynnwys defnyddwyr trwyddedau cyffredinol (yn unig), nid gwrthwynebwy'r anwybodus neu wleidyddol i reoli adar gwyllt;
 - ni ddylai'r panel cynghori gael ei ddominyddu gan ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol sydd â buddiannau breintiedig mewn cynnal y sefyllfa bresennol;
 - byddai angen i CNC egluro sut y byddai'r panel cynghori yn ymwneud â grwpiau rhanddeiliaid presennol neu sut y byddai'n effeithio arnynt.
- Themâu sy'n ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygu trwyddedau cyffredinol:
 - anghytuno â'r cynnig i ddefnyddio rhestr goch/oren BoCC i bennu addasrwydd rhywogaethau i'w cynnwys ar drwyddedau cyffredinol;
 - dylai adolygiadau ystyried effaith unrhyw newidiadau i drwyddedau cyffredinol ar rywogaethau prin, nid ystyried statws cadwraeth rhywogaeth darged y drwydded cyffredinol yn unig;
 - mae pryder y bydd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiadau yn wan o ystyried nad yw CNC yn casglu unrhyw ddata ar y defnydd o drwyddedau cyffredinol, eu heffeithiolrwydd, nac i ba raddau y mae defnyddwyr yn rhoi cynnig ar ddulliau nad ydynt yn farwol.
- Mae tryloywder y broses adolygu yn hollbwysig: dylid cyhoeddi argymhellion y panel cynghori.
- Mae pryder ynghylch gallu CNC i ymrwymo adnoddau digonol i gynnal yr adolygiadau hyn yn rheolaidd ac yn briodol dros y tymor hir.

C13. Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol barhau i gael eu dyroddi am flwyddyn, a bod yn gymwys rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Dim rheswm i newid o'r dull presennol.
- Mae'r cylch blynyddol o ailddyroddi trwyddedau cyffredinol yn hirsefydlog ac yn gyfarwydd i ddefnyddwyr.
- Mae ailddyroddi bob blwyddyn yn galluogi trwyddedau cyffredinol newydd i ymateb yn brydlon i unrhyw dystiolaeth newydd.

- Gellid ystyried symud i drwyddedau cyffredinol dwy flynedd, ond byddai angen i hyn fod yn destun ymgynghoriad cyn cyflwyno newid o'r fath.
- Mae'n bwysig nad oes 'bylchau' mewn dilysrwydd trwyddedau oherwydd yr angen i allu rheoli adar bob diwrnod o'r flwyddyn, felly dylai trwyddedau newydd barhau i ddod i rym wrth i hen rai ddod i ben.
- Dylai fod amser rhagarweiniol rhesymol pan fydd trwyddedau cyffredinol newydd yn cael eu cyhoeddi cyn iddynt ddod i rym, yn enwedig os gwneir unrhyw newidiadau sylweddol. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer hyd y cyfnod rhagarweiniol yn cynnwys tri mis, chwe mis a 12 mis.
- Mae trwyddedau lonawr i Ragfyr yn gwneud synnwyr ac yn gyfarwydd i ddefnyddwyr.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Dylai trwyddedau cyffredinol fod yn ddilys am fwy na blwyddyn ar y tro:
 - roedd y cyfnodau amser a awgrymwyd yn cynnwys rhoi trwyddedau cyffredinol am ddwy flynedd, tair blynedd, pum mlynedd, chwe blynedd, deng mlynedd neu gyfnod amhenodol;
 - byddai trwyddedau cyffredinol hirach yn lleihau costau i bawb;
 - dylai CNC gysylltu ailddyroddi trwyddedau cyffredinol â'r cylch adolygu arfaethedig, hynny yw eu rhoi am dair blynedd a'u hailddyroddi yn dilyn yr adolygiadau tair blynedd arfaethedig;
 - mae ailddyroddi trwyddedau cyffredinol yn flynyddol yn creu risg o wneud newidiadau cynamserol i'r trwyddedau am resymau gwleidyddol neu mewn ymateb i farn/ymgyrchoedd cyhoeddus, yn hytrach nag yng ngoleuni tystiolaeth gadarn;
 - mae unrhyw newidiadau i drwyddedau cyffredinol yn cymryd sawl blwyddyn i ddod yn hysbys ac yn ddealladwy i ddefnyddwyr.
- Mae trwyddedau cyffredinol blynyddol yn iawn, ond ni ddylai hynny olygu y dylid awdurdodi rheolaeth farwol ar adar gwyllt trwy gydol y flwyddyn. Dim ond ar adegau perthnasol o'r flwyddyn y dylid caniatáu rheoli, er enghraifft yn ystod y tymor bridio adar, neu pan fydd cnydau a da byw yn agored i ymosodiad.
- Mae trwyddedau cyffredinol blynyddol yn iawn, ond dylai fod dyddiadau dechrau/gorffen gwahanol. Byddai Hydref i Hydref yn rhoi amser i ddefnyddwyr ymgysylltu ag unrhyw newidiadau cyn y prif dymhorau defnydd ar gyfer GL001 (atal difrod difrifol) a GL004 (cadwraeth adar gwyllt).

C14. Oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch adolygu ac ailddyroddi trwyddedau cyffredinol yn rheolaidd?

- Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynnal adolygiadau:

- dylai adolygiadau gael eu llywio gan ddata cadarn, gan gynnwys faint o adar sy'n cael eu lladd bob blwyddyn o dan drwyddedau cyffredinol;
- dylai pob adolygiad o drwyddedau cyffredinol gynnwys cam casglu gwybodaeth ffurfiol (er enghraifft galwad am dystiolaeth);
- dylai fod gan CNC gyllideb i gomisiynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth wedi'i dargedu'n benodol i gefnogi'r adolygiadau.
- Dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid:
 - dylai adolygiadau gynnwys ymgynghori â'r (holl) rhanddeiliaid;
 - dim angen ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amod bod defnyddwyr trwyddedau cyffredinol yn rhan o'r panel adolygu;
 - dylai'r broses adolygu dynnu ar wybodaeth a phrofiad ymarferol rheolwyr tir a defnyddwyr trwyddedau cyffredinol, neu ar hyn yn unig;
 - dim ond pobl a sefydliadau sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru ddylai gymryd rhan.
- Themâu yn ymwneud â chwmpas a chylch gorchwyl y broses adolygu:
 - dylai adolygiadau fod yr un mor agored i ychwanegu rhywogaethau neu ddibenion at drwyddedau cyffredinol ag y maent ynghylch eu tynnu oddi ar drwyddedau cyffredinol;
 - dylai adolygiadau fabwysiadu dull rhagofalus wrth ystyried effaith newidiadau i drwyddedau cyffredinol ar y buddiannau y bwriedir i'r trwyddedau eu hamddiffyn (gan gynnwys busnesau ffermio a bywyd gwyllt arall);
 - ni ddylai unrhyw drwyddedau cyffredinol gael eu rhoi oni bai fod achos gwyddonol clir dros roi trwydded gyffredinol yn cael ei gyflwyno bob tro;
 - dylai adolygiadau gynnwys gwneud argymhellion ar gyfer newid deddfwriaeth, gan gynnwys a ddylid ychwanegu rhai rhywogaethau o adar gwyllt at Atodlen 2 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, gan nodi nad oes angen cydymffurfio â Chyfarwyddeb Adar yr UE mwyach;
 - dylai adolygiadau ystyried tystiolaeth ar gydymffurfio â thrwyddedau cyffredinol, y dylid eu tynnu'n ôl os oes tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio.

Cwestiwn 15: Ffurf cyhoeddi trwyddedau cyffredinol

Rydym yn bwriadu atal yr arfer o gyhoeddi trwyddedau cyffredinol ar ffurf PDF, a'u dyroddi fel tudalennau HTML yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi ac annog defnydd o'r Gymraeg ym mhob maes o gylch gwaith CNC, byddwn hefyd yn parhau i gyhoeddi trwyddedau cyffredinol yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

C15.Oes gennych unrhyw sylwadau ar fformat trwyddedau cyffredinol neu unrhyw awgrymiadau ar sut mae modd i ni wella eu cyflwyniad?

- Cadw fersiynau PDF ochr yn ochr â chyhoeddi'r trwyddedau mewn fformat HTML:
 - mae dogfennau PDF yn haws eu hargraffu, sy'n ddefnyddiol yng nghyd-destun y cyngor a roddir i ddefnyddwyr trwyddedau i gadw copi gyda nhw wrth ddefnyddio'r drwydded, ac ar gyfer darparu copïau i bobl heb fynediad i gyfrifiadur (gan nodi mai polisi Llywodraeth Cymru yw parhau i gefnogi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gael fynediad at wasanaethau cyhoeddus Cymru);
 - ychydig iawn o gost ychwanegol sydd i CNC o sicrhau bod trwyddedau cyffredinol ar gael yn y ddau fformat;
 - mae fersiynau PDF yn ddefnyddiol yn benodol fel dewis amgen i fersiynau printiedig – gall defnyddwyr gadw copi wedi'i lawrlwytho ar ddyfais pan fyddant yn y maes, yn annibynnol ar fynediad i'r rhyngwyd.
- Dylai trwyddedau cyffredinol fod yn ddogfennau syml, cryno:
 - yn ddelfrydol dylent fod yn ddogfennau un dudalen;
 - cadw at Saesneg clir ac osgoi jargon cyfreithiol a thechnegol;
 - dylai telerau ac amodau trwyddedau cyffredinol fod yn fach iawn, gan roi pwyslais ar ddisgresiwn a barn defnyddwyr trwyddedau ac osgoi'r angen am lawer o fanylion.
- Dylai trwyddedau cyffredinol fod yn fanwl ac yn benodol:
 - dylent gynnwys diffiniad manwl o amgylchiadau ac amodau defnydd cyfreithlon, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt fod yn ddogfennau sylweddol;
 - ni ddylent fod yn agored i ddehongliad na gadael defnyddwyr i benderfynu beth sy'n gyfreithlon a beth nad yw'n gyfreithlon.
- Awgrymiadau ar gyfer cynnwys ychwanegol mewn trwyddedau cyffredinol:
 - cynnwys cymal ynghylch tarfu ar weithgarwch cyfreithlon sy'n cael ei gyflawni o dan y drwydded gyffredinol, i roi rhywfaint o amddiffyniad i'r defnyddiwr rhag aflonyddu;
 - cynnwys gwybodaeth ynglŷn â pham mae'r drwydded wedi'i rhoi, er budd defnyddwyr y drwydded ac unrhyw un sy'n pryderu am ddefnyddio'r drwydded;
 - cynnwys lluniau o'r rhywogaethau y gellir eu rheoli.
- Peidio â rhoi trwyddedau cyffredinol o gwbl.

Cwestiynau 16 i 18:Amodau a thelerau safonol ar gyfer trwyddedau cyffredinol

Fe wnaethom gynnig rhai newidiadau i delerau ac amodau safonol i'w cynnwys mewn trwyddedau cyffredinol.

C16. Ydych chi'n cytuno y dylai unigolyn a awdurdodwyd gan berchennog neu feddiannwr tir i gymryd camau o dan drwydded gyffredinol gael ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan berchennog neu feddiannwr y tir?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Byddai hyn yn helpu i sicrhau atebolrwydd ac ymchwilio i droseddau posibl, trwy ddileu amheuaeth lle mae unigolyn yn honni bod ganddo ganiatâd perchennog y tir.
- Byddai'n helpu i osgoi potsio ac yn lleihau'r posibilrwydd o ladd adar yn achlysurol.
- Mae eglurder ar hyn yn arbennig o bwysig lle mae hawliau saethu yn cael eu dal gan bobl oni bai am dirfeddianwyr.
- Mae hwn yn gynnig rhesymol, gan nodi nad oes rhaid iddo gynnwys dogfen gyfreithiol fanwl neu gontract: gallai'r awdurdodi fod ar ffurf e-bost, yn nodyn wedi'i ysgrifennu â llaw, neu hyd yn oed yn neges destun.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid oes angen y cynnig hwn ac nid oes iddo unrhyw werth ymarferol:
 - baich gwaith papur ychwanegol diangen i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol;
 - os oes unrhyw bryderon/materion ynghylch defnydd cyfreithlon o'r drwydded gyffredinol, mae'n well gwirio gyda thirfeddianwyr mewn achosion unigol yn hytrach na gosod y gofyniad hwn yn gyffredinol;
 - nid oes tystiolaeth o unrhyw broblem benodol y mae'r cynnig hwn yn cael ei gynnig fel ateb iddi;
 - nid oes angen hyn ar y rhan fwyaf o ffermydd neu ystadau, oherwydd mae'n amlwg i bawb pwy yw'r tirfeddiannwr a phwy sy'n gweithio i'r tirfeddiannwr;
 - nid oes unrhyw ofyniad statudol am awdurdodiad ysgrifenedig, felly byddai trosedd yn codi o ddiffyg awdurdodiad, nid o ddiffyg awdurdodiad ysgrifenedig, felly ni fyddai'r cynnig hwn yn gwneud unrhyw wahaniaeth mewn termau cydymffurfio/gorfodi;
 - mae hwn yn gynnig dibwrpas oni bai fod CNC yn bwriadu gwirio pob awdurdodiad ysgrifenedig.
- Gallai'r cynnig hwn greu problemau ymarferol:

- efallai y bydd angen cymryd camau brys i reoli adar ac efallai na fydd y tiffeddiannwr ar gael i roi caniatâd ysgrifenedig yn brydlon;
- os bydd angen cymorth gan unigolyn arall ar unigolyn awdurdodedig, oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd (er enghraifft i roi sylw i fagl), gallai fod yn anodd cael awdurdodiad ysgrifenedig ar gyfer yr unigolyn arall yn gyflym, gan atal camau rhag cael eu cymryd er budd lles yr anifail;
- gallai'r awdurdodiad ysgrifenedig gael ei golli – a allai hynny arwain at drosedd?
- Gallai awdurdodiad ysgrifenedig fod yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol allu ei ddarparu os cânt eu herio, ond dylai hyn fod yn gynghorol ac nid yn amod trwydded gorfodol.
- Mae contractau llafar yn ddigonol mewn meysydd eraill o'r gyfraith, felly dylai cytundebau llafar fod yn ddigonol yn y cyd-destun hwn.

C17. Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol gynnwys amod sy'n gofyn i ddefnyddwyr geisio mynd i'r afael â'r broblem yn y lle cyntaf gan ddefnyddio dulliau anfarwol gwahanol, a pharhau i wneud ymdrechion rhesymol i wneud hynny?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Bydd hyn yn helpu i sicrhau mai dim ond lle bo angen ac at y diben penodedig y caiff rheolaeth farwol ei chyflawni. Er enghraifft, bydd yn helpu i atal pobl rhag saethu adar er hwyl neu gyfleustra ar yr esgus ei fod yn angenrheidiol at ddiben y drwydded.
- Dylai rheolaeth farwol fod yn ddewis olaf ac nid yn ddewis cyntaf. Heb yr amod hwn, nid oes dim i annog neu fynnu bod defnyddwyr yn gwneud unrhyw ymdrech i fynd i'r afael â'r broblem cyn troi at reolaeth farwol.
- Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer trwyddedau felly yn bendant dylid ei gynnwys fel amod.
- Ystyriaethau ymarferol:
 - cytuno bod yr amod hwn yn cael ei gynnwys ond dylai CNC fonitro lefel y cydymffurfedd ag ef;
 - dylai rheolaeth farwol fod yn rhan o gynllun rheoli sy'n cynnwys ystyried dulliau eraill nad ydynt yn farwol o fynd i'r afael â phroblemau, er ei bod yn anodd iawn i drwyddedau cyffredinol fynnu bod gan ddefnyddwyr gynlluniau rheoli.
- Dylid diffinio unrhyw amod o'r fath mewn ffordd sy'n dal i ganiatáu i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol proffesiynol (fel rheolwyr plâu a chiperiaid) arfer eu barn.
- Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu sydd eisoes ar waith mewn trwyddedau cyffredinol yn Lloegr, gan nodi bod cysondeb rhwng Cymru a Lloegr yn bwysig i lawer o ddefnyddwyr trwyddedau. Dylai trwyddedau cyffredinol CNC ddefnyddio'r un geiriad ar gyfer yr amod hwn ag sydd yn nhrwyddedau Defra.

- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol yn ystyried defnyddio dulliau nad ydynt yn farwol beth bynnag, felly dylai CNC atgyfnerthu hynny, a helpu i sicrhau bod pawb yn gwneud hynny, drwy ei wneud yn amod trwydded.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Effeithiolrwydd dulliau nad ydynt yn farwol:
 - nid yw dulliau nad ydynt yn farwol yn ymarferol nac yn effeithiol yn y rhan fwyaf o amgylchiadau – y cwbl y maent yn ei wneud yw gohirio neu symud i rywle arall y problemau a achosir gan adar;
 - mae angen gweithredu'n gyflym yn aml, felly ni ddylai pobl sydd angen diogelu da byw, cnydau neu adar sy'n nythu orfod gwastraffu amser yn arbrofi gyda dulliau nad ydynt yn farwol – os nad ydynt yn gweithio, bydd y niwed yn cael ei wneud;
 - pe bai dulliau nad ydynt yn farwol yn effeithiol neu'n ymarferol, byddent eisoes yn cael eu defnyddio yn lle rheolaeth farwol.
- Nodweddion ymarferol ar gyfer defnyddwyr trwyddedau cyffredinol:
 - ni ddylai CNC osod baich ychwanegol ar ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol – bydd hyn yn gwneud y trwyddedau'n rhy gymhleth ac anodd cydymffurfio â nhw;
 - mae'r amod arfaethedig yn rhy amwys, er enghraifft faint o ymdrech sy'n rhesymol?;
 - gallai trwyddedau cyffredinol ar y mwyaf gynnwys neu gysylltu â gwybodaeth neu ganllawiau ar ddefnyddio dulliau nad ydynt yn farwol, yn hytrach na gwneud hwn yn amod gorfodol.
- Os yw trwydded gyffredinol wedi'i hystyried a'i rhoi'n briodol a'i bod yn gyfreithlon (fel y mae trwyddedau cyffredinol CNC) yna caniateir gweithredu marwol, ac nid oes unrhyw reswm i osod amodau pellach ar ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol, y dylid caniatáu iddynt arfer eu barn eu hunain. Felly, mae'r amod hwn yn ddiangen/gormodol.
- Gallai amod fel hwn niweidio cadwraeth adar trwy annog pobl i beidio â rheoli rhywogaethau ysglyfaethus.
- Mae llawer o ddulliau nad ydynt yn farwol yn annynol.

C18. Ydych chi'n cytuno y dylai defnyddwyr trwyddedau cyffredinol dderbyn cyngor i gadw cofnodion o'r camau gweithredu maent wedi'u cymryd dan y trwyddedau?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal gweithgareddau i reoli adar gwyllt gadw cofnodion beth bynnag: mae'n ddefnyddiol cael cyngor yn y drwydded i gefnogi hyn.
- Byddai'r sector rheoli plâu yn hapus i rannu cofnodion dienw i gefnogi parhad trwyddedau cyffredinol.

- Mae cadw cofnodion yn arfer da ac fe'i gwneir yn eang gan ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol, felly rwy'n cytuno â'r cynnig hwn, ond ni ddylai fod yn orfodol cadw cofnodion na darparu adroddiadau i CNC.
- Byddai cadw cofnodion yn gymorth i ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â maglau, a byddai hefyd yn fuddiol i ddefnyddwyr maglau gael cofnodion y gallant eu defnyddio i ddangos defnydd cyfreithlon o faglau.
- Ni fyddai hyn yn broblem pe bai CNC yn caniatáu trwyddedau penodol yn unig. Dylai CNC o leiaf wneud trwyddedau cyffredinol yn hyn o beth yn gyson â thrwyddedau penodol, y mae angen adrodd arnynt i gyd.
- Byddai hyn yn atal lefelau gormodol o ladd adar gwyllt: os yw pobl yn cofnodi eu gweithredoedd maent yn fwy tebygol o feddwl a yw'r gweithredoedd hynny'n angenrheidiol ac yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid oes unrhyw werth ychwanegol i'r cynnig hwn ac nid oes problem wedi'i nodi'n glir y mae ateb iddi.
- Gallai hyn hyd yn oed atal pobl rhag gwneud gwaith rheoli bywyd gwyllt angenrheidiol o dan drwyddedau cyffredinol.
- Biwrocratiaeth/baich ychwanegol digroeso i ddefnyddwyr ac i CNC.
- Dylai fod yn ofynnol (fel amod) i ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol gadw a chyflwyno cofnodion, nid yn unig yn cael eu cynghori i wneud hynny:
 - ei bod yn hanfodol i CNC gael gwybodaeth am y graddau y defnyddir trwyddedau cyffredinol, er mwyn llywio penderfyniadau trwyddedu yn y dyfodol (gan gynnwys proses adolygu trwyddedau cyffredinol arfaethedig CNC) ac er mwyn cydymffurfio â thelerau ac amodau trwyddedau cyffredinol;
 - os yw cadw cofnodion yn unol ag arferion gorau ac eisoes yn cael ei wneud yn eang gan ddefnyddwyr cymwys / ag enw da, ni fyddai ei gwneud hi'n orfodol a mynnu bod cofnodion yn cael eu cyflwyno yn faich ychwanegol sylweddol trwy ddiffiniad;
 - nid oes angen i gadw cofnodion fod yn feichus;
 - os cyngor yn unig yw hyn, ni fydd pobl yn ei wneud, ac felly nid oes unrhyw fodd i wirio cydymffurfedd, sy'n golygu nad oes diben ei gynnwys.

Cwestiynau 19 ac 20: Cydymffurfio â gofynion safleoedd gwarchoddedig wrth ddyroddi trwyddedau cyffredinol

Rydym yn cynnig parhau i eithrio o gwmpas perthnasedd trwyddedau cyffredinol unrhyw SoDdGA sydd wedi'i nodi am un neu fwy o rywogaethau sy'n sensitif o bosib i aflonyddwch achlysurol o saethu adar gwyllt.

C19. Ydych chi'n cytuno â'n dull arfaethedig o fynd i'r afael â gofynion safleoedd gwarchoddedig wrth roi trwyddedau cyffredinol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi perygl o darfu ar rywogaethau sensitif mewn safleoedd gwarchoddedig. Gellir lliniaru'r risg o aflonyddwch trwy'r craffu ac amodau mwy y gellir eu cymhwyso drwy'r broses benodol o wneud cais am drwydded.
- Dylai rheoli adar gwyllt ar safleoedd gwarchoddedig fod yn rhan o gynllun rheoli bywyd gwyllt, a dim ond trwy broses benodol o wneud cais am drwydded y gellir cyflawni hyn.
- Cytuno â'r dull gweithredu, yn amodol ar rybuddion:
 - cyn belled ag y gellir rhoi trwyddedau penodol yn gyflym pan fo angen rheoli adar gwyllt yn yr ardaloedd sydd wedi'u heithrio o drwyddedau cyffredinol;
 - cyn belled â bod safleoedd yn cael eu monitro a bod modd rheoli plâu lle bo angen;
 - ar yr amod ei bod yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i wybodaeth am union leoliadau'r safleoedd eithriedig.
- Mae dull CNC yn cyd-fynd â dull Defra, sy'n gweithio'n dda.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Baich rheoleiddiol ychwanegol:
 - dylai CNC ddilyn y dull a fabwysiadwyd yn nhrwyddedau cyffredinol Defra ar gyfer safleoedd gwarchoddedig;
 - mae CNC yn anghywir i awgrymu bod dileu'r angen am ganiatâd SoDdGA yn lleddfu'r baich rheoleiddiol – yn syml iawn mae'n symud y baich o gydsynio SoDdGA i drwyddedu rhywogaethau, ac ar ben hynny nid oes angen caniatâd ar rai SoDdGAu ar gyfer gweithgareddau a ganiateir gan drwyddedau cyffredinol;
 - mae unrhyw leihad yn y baich rheoleiddiol drwy ddull CNC yn cael ei ganslo oherwydd bod rhaid i drwyddedeion cyffredinol gael caniatâd SoDdGA beth bynnag ar gyfer gweithgareddau atodol nad ydynt yn cael eu caniatáu gan y drwydded (er enghraifft defnyddio cerbydau);
 - mae hwn yn faich rheoleiddiol ychwanegol annheg ar dirfeddianwyr o fewn / o amgylch SoDdGAu y mae angen iddynt reoli adar gwyllt;

- ni fydd CNC yn gallu prosesu nifer fawr o geisiadau am drwyddedau penodol yn gyflym ar yr holl safleoedd hyn sydd wedi'u heithrio.
- Anghytuno bod trwyddedau cyffredinol yn peri risg i safleoedd gwarchoddedig:
 - nid oes tystiolaeth bod defnyddio trwyddedau cyffredinol ar safleoedd gwarchoddedig yn peri unrhyw risg i nodweddion y safle – bydd unrhyw aflonyddwch a achosir gan saethu yn fach ac yn fyrhoedlog;
 - mae rheoli adar gwyllt yn helpu i warchod safleoedd gwarchoddedig (drwy reoli ysglyfaethwyr) yn hytrach na bod yn risg i safleoedd gwarchoddedig, felly dylai CNC annog rheoli ysglyfaethwyr mewn SoDdGAau yn hytrach na chreu rhwystrau drwy fynnu ceisiadau am drwyddedau penodol;
 - gallai annog pobl i beidio â rheoli ysglyfaethwyr mewn safleoedd gwarchoddedig eu gwneud yn hafan i fermin;
 - mae'n ddisynnwyr y gall rhywun saethu adar hela (neu gwningod) ar SoDdGA, ond nad yw'n gallu saethu adar eraill o dan drwydded cyffredinol yn yr un SoDdGA neu ar gae cyfagos.
- Mae'r glustogfa safonol o 300 metr o amgylch yr holl safleoedd a eithrir yn fympwyol, a dylid ystyried yr angen am unrhyw glustogfeydd o'r fath fesul safle.
- Fel dewis arall yn hytrach nag eithrio safleoedd gwarchoddedig o drwyddedau cyffredinol, dylai CNC ystyried yr opsiwn o gael ymarferwyr cofrestredig y gellir ymddiried ynddynt, wedi'u hawdurdodi o dan fath o drwydded cyffredinol, i reoli adar gwyllt o fewn / o amgylch safleoedd gwarchoddedig er budd gwarchod nodweddion y safle, yn enwedig adar nythu prin sy'n agored i ysglyfaethu gan frain.

C20. Ydych chi'n cytuno gyda'r rhestr o safleoedd a chlustogfeydd rydym yn cynnig na ddylai trwyddedau cyffredinol fod yn berthnasol iddynt?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau ychwanegol perthnasol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Anghytuno â'r rhestr o safleoedd oherwydd anghytuno â'r dull cyffredinol y mae CNC yn ei fabwysiadu.
- Dylai trwyddedau cyffredinol fod yn berthnasol ym mhobman – ni ddylid eithrio unrhyw safle gwarchoddedig.
- Os bydd CNC yn parhau â'r dull presennol, dylai adolygu'r rheswm pam mae rhai safleoedd wedi'u heithrio. Dynodir rhai SoDdGAau sydd wedi'u heithrio am fathau o gynefin neu nodweddion daearegol yn unig, nid oes modd y gall y defnydd o drwyddedau cyffredinol effeithio'n sylweddol arnynt (er enghraifft SoDdGA Trwyn y Gadair).

- Dylai CNC gadw'r rhestr o safleoedd wedi'u heithrio dan adolygiad.
- Dylid ond eithrio safleoedd ar sail tystiolaeth wirioneddol o'r angen i wneud hynny.
- Dylai CNC ddarparu tystiolaeth/cyfeiriadau sy'n cyfiawnhau'r clustogfeydd arfaethedig.
- Ni ddylai trwyddedau cyffredinol fod yn berthnasol mewn unrhyw SoDdGA. Dylai unrhyw reolaeth ar adar gwyllt mewn SoDdGA gael ei rheoleiddio dan drwyddedau penodol.
- Cyfeiriwyd at safleoedd penodol mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad:
 - ni ddylid eithrio'r Berwyn – mae angen hanfodol am reolaeth brain i warchod rhywogaethau prin eraill sy'n nythu;
 - mae eithrio afon Wysg a chlustogfa 300 metr yn atal rheoli gwyddau Canada ar dir fferm cyfagos sy'n effeithio ar gnydau.

Trwyddedau penodol

Cwestiynau 21 a 22: Ceisiadau ac adroddiadau am drwyddedau penodol

Rydyn ni'n adolygu ein prosesau ar gyfer derbyn a phenderfynu ar geisiadau ar gyfer trwyddedau penodol i ladd neu gymryd adar gwyllt, wyau a nythod, a gwnaethom geisio barn rhanddeiliaid ar sut gallai'r broses drwyddedu benodol gael ei gwella.

C21. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am sut gallai'r broses o gyflwyno cais am drwydded benodol, gan gynnwys y ffurflenni cais, gael ei gwella?

- Lleihau amserlen a chymhlethdod y broses o wneud cais am drwydded:
 - mae'r 40 diwrnod safonol ar gyfer cael gwasanaeth ar hyn o bryd yn rhy hir – byddai penderfynu ar geisiadau o fewn 20 diwrnod yn uchafswm amser gweithredu mwy rhesymol;
 - dylai CNC ystyried sgrinio ceisiadau, gan ymdrin â cheisiadau syml yn gyflym ac ystyried rhai mwy cymhleth neu ddadleuol yn fanylach;
 - mae lefel y dystiolaeth sydd ei hangen yn rhy feichus – dylai fod yn gymesur â natur y cais a lefel y risg;
 - gellid sefydlu grŵp rhanddeiliaid i gynorthwyo CNC i adolygu a gwella'r broses o wneud cais am drwydded;
 - ar gyfer adnewyddu trwyddedau, dylid symleiddio'r broses fel bod trwyddedau penodol yn cael eu hadnewyddu'n awtomatig neu'n parhau'n ddilys yn amodol ar gyflwyno adroddiad blynyddol gan y trwyddedai.

- Cymorth i ymgeiswyr am drwydded:
 - dylai CNC ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid hawdd mynd ato i gynorthwyo ymgeiswyr am drwydded;
 - dylai cyngor ynghylch opsiynau eraill i reoli adar gwyllt fod ar gael i ymgeiswyr am drwydded pan fydd eu cais yn cael ei brosesu.
- Dylai CNC ystyried codi ffi ar gyfer ceisiadau am drwyddedau penodol i helpu i ariannu gwelliannau i'r gwasanaeth trwyddedu.
- Mae angen mwy o eglurder a thryloywder ynghylch sut mae CNC yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau, yn benodol mewn perthynas â phenderfyniadau ar nifer yr adar y caniateir eu lladd/cymryd, nad ydynt yn aml yn diwallu anghenion ymgeiswyr am drwyddedau.
- Dylai'r broses o wneud cais am drwydded i ladd/cymryd adar gwyllt fod yn debyg i'r broses o wneud cais am ganiatâd i dynnu lluniau, ffilmio neu weithio ar unrhyw rywogaeth arall sydd angen trwydded.
- Ni ddylai fod angen trwyddedau penodol: dylai unrhyw drwyddedau ar gyfer rheoli adar gwyllt gael eu hawdurdodi gan drwyddedau cyffredinol i reoli unrhyw rywogaeth o adar gwyllt.

C22. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am sut i wella'r gofyniad i ddarparu adroddiadau ar weithgareddau a wnaed dan drwyddedau penodol, gan gynnwys y ffurflenni adrodd?

- Mae angen i adrodd fod yn symlach – mae'n ormod o faich ar drwyddedeion.
- Mae angen i lefel y wybodaeth a geisir trwy ddatganiadau trwydded fod yn realistig ac yn gymesur er mwyn lleihau'r baich ar drwyddedeion.
- Dylid darparu ffurflen ar-lein hawdd ei defnyddio ar gyfer darparu datganiadau trwydded (er enghraifft, yn dilyn dull tebyg i'r system genedlaethol ar gyfer cofnodi dalfeydd pysgota â gwialen).
- Dylai opsiynau adrodd ar-lein ac ar bapur fod ar gael.
- Dylai fod angen datganiadau trwydded gan bob trwyddedai penodol, gan gynnwys os na chafodd adar gwyllt eu lladd na'u cymryd o dan y drwydded.
- Ni ddylai fod angen adrodd ar drwyddedau a ddefnyddir i reoli rhywogaethau adar sy'n bla.

Awdurdodi'r defnydd o ddulliau marwol

Cwestiynau 23 a 24: Egwyddorion trwyddedu'r defnydd o ddulliau marwol

Fe wnaethom gynnig y dylai trwyddedau sy'n caniatáu rheolaeth farwol adar gwyllt ond awdurdodi'r defnydd o ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd dan y Ddeddf, oni bai fod rhesymau da dros awdurdodi dull gwaharddedig hefyd.

Rydym yn cynnig y dylai unrhyw drwyddedau cyffredinol rydym yn eu dyroddi ganiatáu'r defnydd o'r holl ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd gan adran 5 o'r Ddeddf.

C23. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion trosfwaol rydym wedi'u nodi ar gyfer penderfynu pa ddulliau y dylid eu trwyddedu ar gyfer lladd neu gymryd adar gwyllt a'r dulliau na ddylid eu trwyddedu?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Dim ond dulliau dyngar y dylid eu defnyddio.
- Dylid caniatáu hyblygrwydd o fewn y drwydded i ddefnyddio dulliau amgen ar gyfer sefyllfaoedd unwaith ac am byth lle nad yw dulliau cyfreithiol yn gweithio.
- Mae'r ffordd y caiff yr egwyddorion eu mynegi yn galluogi hyblygrwydd, a dylai olygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth a synnwyr cyffredin.
- Mae angen hyblygrwydd i ymdopi â sefyllfaoedd penodol lle mae dulliau nad ydynt wedi'u gwahardd yn aneffeithiol.
- Dylai pob dull a ganiateir gan y ddeddfwriaeth gael ei ganiatáu gan drwyddedau.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Dylai trwyddedau fod yn benodol ynghylch pa ddulliau a awdurdodir, yn hytrach nag awdurdodi unrhyw beth nad yw wedi'i wahardd gan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Byddai dull gweithredu arfaethedig CNC yn caniatáu defnyddio dulliau newydd ac a allai fod yn annynol neu'n niweidiol i'r amgylchedd nas rhagwelwyd pan ddaeth y ddeddfwriaeth i rym.
- Dylid caniatáu ystod mor eang â phosibl o ddulliau rheoli (cyfeiriwyd yn benodol at alwyr electronig, recordiadau sain a drylliau lled-awtomatig).
- Dyngarwch y dull ddylai fod yr unig ystyriaeth.
- Dylid caniatáu pob dull cyfreithiol trwy drwyddedau cyffredinol.
- Ni ddylid caniatáu dulliau gwaharddedig yn y ddeddfwriaeth ar drwyddedau.
- Ni ddylai fod unrhyw ddulliau wedi'u trwyddedu ar gyfer lladd neu gymryd adar gwyllt.

C24. Ydych chi'n meddwl bod materion eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa ddulliau y dylid eu trwyddedu a pha rai na ddylid eu trwyddedu?

- Cost, ymarferoldeb ac effeithlonrwydd dulliau marwol ddylai fod y prif ystyriaethau.
- Dylai pryderon yn ymwneud â lles fod yn hollbwysig: ni ddylid caniatáu dulliau annynol.
- Dylid cymryd agwedd hyblyg.
- Dull CNC o benderfynu pa ddulliau y dylid eu hawdurdodi:
 - dylai cymeradwyaeth i ddefnyddio unrhyw ddull fod yn seiliedig ar asesiad trylwyr o'i effeithiolrwydd;
 - dylid cael dull trwyadl o benderfynu a ddylid cymeradwyo defnyddio dull wedi'i wahardd, sy'n gymharol i'r panel arbenigol sy'n cymeradwyo dulliau a ddefnyddir i ddal a modrwyo adar at ddibenion gwyddonol – nid oes unrhyw gyfiawnhad dros beidio â chael trylwyredd tebyg wrth ganiatáu defnyddio dulliau marwol;
 - dylai unrhyw ddulliau rheoli newydd gael eu monitro a bod yn amodol ar gymeradwyaeth bellach;
 - dylid cynnal adolygiad cyfnodol o dystiolaeth wyddonol newydd yn ymwneud â defnyddio dulliau marwol;
 - ar drwydded benodol, dylai fod cyfiawnhad da iawn dros ganiatáu defnyddio unrhyw ddull na chaniateir ar drwyddedau cyffredinol;
 - dylai fod cysondeb rhwng trwyddedau penodol a chyffredinol.
- Dylai CNC gyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio dulliau marwol ac atgoffa defnyddwyr o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth lles anifeiliaid.
- Dylai CNC ystyried defnyddio trwyddedau dosbarth i gyfyngu'r defnydd o rai dulliau i weithwyr proffesiynol cymwys.
- Dylid rhoi cynnig ar ddulliau nad ydynt yn farwol yn gyntaf.
- Dylid ystyried a ddylid / na ddylid caniatáu dulliau arbennig mewn ardaloedd daearyddol gwahanol.

Cwestiynau 25 i 27: Y dulliau marwol y dylid eu hawdurdodi

Fe wnaethom gynnig y dylai trwyddedau cyffredinol ganiatáu defnydd o arfau lled-awtomatig a maglau cawell yn ogystal â'r defnydd o'r holl ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd.

C25. Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol a ddyroddir gan CNC ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt ganiatáu'r defnydd o'r HOLL ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd gan adran 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod telerau trwyddedau cyffredinol yn cyd-fynd â'r Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad, a ddylai annog cydymffurfedd.
- Mae dulliau nad ydynt wedi'u gwahardd yn gyfreithlon trwy ddiffiniad, ac felly dylid eu caniatáu ar unrhyw drwyddedau cyffredinol.
- Dylid cynnal adolygiad cyfnodol o dystiolaeth wyddonol newydd yn ymwneud â'r defnydd o ddulliau marwol i sicrhau arferion gorau.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Dylid cyfiawnhau dulliau a ddefnyddir i ladd neu gymryd adar gwylt mewn ceisiadau am drwyddedau.
- Dylai trwyddedau cyffredinol fod yn benodol ynglŷn â'r dulliau y caniateir eu defnyddio ar gyfer rhywogaethau arbennig, yn hytrach nag awdurdodi unrhyw beth ar y sail nad yw wedi'i wahardd dan y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad.
- Dylai fod gan CNC restr o ddulliau y gellir eu defnyddio lle mae tystiolaeth yn dangos eu bod yn effeithiol ac nad ydynt yn cael effeithiau annerbyniol ar les rhywogaethau targed neu rywogaethau nad ydynt yn darged.
- Mae'r defnydd o arfau aer yn peri pryder oherwydd y diffyg rheoleiddio a'r potensial i'w camddefnyddio wrth saethu targedau byw.

C26. Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw drwyddedau cyffredinol sy'n cael eu dyroddi gan CNC barhau i alluogi'r defnydd o arfau lled-awtomatig a maglau cawell?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae'r ddau ddull hyn yn gosteffeithiol, yn effeithlon, yn drugarog ac yn ymarferol. Byddai defnyddio dulliau llai effeithiol yn wrthgynhyrchiol, nid yn datrys y broblem, a gallai fod yn waeth o ran lles anifeiliaid.
- Mae arfau lled-awtomatig yn caniatáu lladdiad cyflymach, gan ganiatáu i ergydion ailadroddus gael eu tanio'n gyflymach os oes angen.
- Gall rhywogaethau nad ydynt yn darged gael eu rhyddhau'n ddiogel o faglau cawell.
- Y dulliau hyn yw'r unig ffordd ymarferol o reoli niferoedd mawr o adar.
- Byddai cael gwared ar arfau lled-awtomatig yn mynd yn groes i Egwyddor 7 arfaethedig CNC ar gyfer trwyddedau cyffredinol.
- Rhybuddion yn ymwneud â chytuno â'r cynnig:
 - dylai defnyddwyr gael hyfforddiant ar sut i weithredu maglau'n gywir, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau lles anifeiliaid;

- mae angen i faglau fod o'r maint cywir a chael eu gwirio'n rheolaidd, ac mae angen eu symud yn rheolaidd oherwydd gall adar ddechrau eu hosgoi;
- dylai arfau lled-awtomatig gael eu dal yn gyfreithlon;
- dylid cofrestru maglau cawell fel bod gweithredwyr yn adnabyddadwy ac yn atebol am eu defnydd priodol.
- Barnwyd bod y ddau dull yn briodol ac yn gyfreithlon yn ystod yr adolygiad barnwrol a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2021.
- Dylai trwyddedau cyffredinol hefyd barhau i ganiatáu defnyddio goleuadau artiffisial a rhwydi (y ddau yn ddulliau wedi'u gwahardd) i reoli colomennod mewn adeiladau.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid yw maglau cawell yn cael eu harchwilio'n ddigon aml, felly gallant achosi dioddefaint a niwed i rywogaethau targed a rhai nad ydynt yn darged.
- Efallai na fydd pobl yn defnyddio pob dull yn gywir.
- Dylid cynnwys y defnydd o ddulliau wedi'u gwahardd fel rhan o gynllun rheoli bywyd gwyllt.

C27. Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw ddull sy'n cael ei ganiatáu dan y trwyddedau cyffredinol hefyd gael ei ganiatáu, os gwneir cais amdano, dan drwyddedau penodol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau ychwanegol perthnasol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Os caiff dull ei awdurdodi gan drwydded gyffredinol, ni ddylai fod angen trwyddedu pellach.
- Rhaid ystyried amgylchiadau penodol.
- Dim ond dulliau nad ydynt yn farwol y dylid eu defnyddio i reoli adar gwyllt.

Rheoleiddio'r defnydd o faglau cawell

Cwestiynau 28 a 29: Mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio

Rydym yn cynnig nodi'r mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio dan y trwyddedau cyffredinol ac y byddai unrhyw un sy'n dymuno defnyddio math gwahanol yn gorfod cyflwyno cais am drwydded benodol.

C28. Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol a phenodol CNC nodi'r mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Manteision y cynnig:
 - bydd yn darparu eglurder i ddefnyddwyr maglau cawell a'r rhai nad ydynt yn defnyddio maglau cawell, yn arbennig fel y gall defnyddwyr a'r cyhoedd fod yn hyderus y cydymffurfir ag amodau a thelerau'r drwydded;
 - hanfodol i atal defnyddio maglau a allai fod yn anaddas o ran lles adar sydd wedi'u dal ac adar denu;
 - bydd yn hwyluso gwiriadau cydymffurfio ac unrhyw gamau gorfodi;
 - y gellid ei gwneud yn bosibl casglu data ar effeithiau cael eu dal ar les anifeiliaid (fel sydd eisoes wedi digwydd yn yr Alban).
- Dylai ei bod hi'n bosibl gwneud cais am drwydded benodol i dreialu dyluniad magl na chaniateir (er y bydd hyn yn gofyn am newid y ffurflenni cais).
- Sylwadau penodol ar agweddau ar ddyluniad magl y dylid eu caniatáu:
 - mewn perthynas â maglau Larsen, dylid nodi uchafswm maint drysau'r cewyll a nifer y denwyr, er mwyn lleihau'r camddefnydd o'r maglau i ddal adar ysglyfaethus yn fwriadol;
 - dylid awdurdodi maglau ar gyfer colomennod gwyllt.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae'r system bresennol, nad yw'n nodi dyluniad magl, yn gweithio'n dda. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw broblemau gyda'r dull hwn.
- Mae'r rhain yn faglau sy'n dal anifeiliaid byw, felly gellir rhyddhau unrhyw rywogaethau nad ydynt yn rhai targed sy'n cael eu dal.
- Mae defnyddwyr maglau yn fwyaf cymwys i wybod pa ddyluniadau maglau y dylid eu defnyddio.

- Ni ddylai trwyddedau fod yn rhy fanwl a dylent fod yn hawdd eu deall. Gallai nodi mathau o faglau achosi dryswch.
- Ni ddylid caniatáu maglau cawell o gwbl.

C29. Ydych chi'n cytuno gyda'r mathau o faglau cawell, a'u manylebau, rydym yn bwriadu eu hawdurdodi i'w defnyddio dan unrhyw drwyddedau cyffredinol rydym yn eu dyroddi?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Rhybuddion yn ymwneud â chytuno â'r cynnig:
 - dylid cael proses symlach ar gyfer ychwanegu dyluniadau neu gynhyrchion newydd at y rhestr ymeradwy o fathau o faglau, er mwyn cefnogi arloesedd;
 - dylid cael tystiolaeth o effeithiolrwydd y dyluniadau a gymeradwywyd a'u heffeithiau ar les adar denu, rhywogaethau targed a rhywogaethau nad ydynt yn darged.
 - mae gwybodaeth a phrofiad ymarferol defnyddwyr maglau cawell yn hanfodol i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud yma.
- Dylid gosod maglau yn sownd yn eu lle i'w hatal rhag cael eu llusgo.
- Dylid cyfyngu ar y nifer uchaf o adar denu y gellir eu defnyddio (mewn magl lluosog).

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau perthnasol.

Cwestiynau 30 a 31: Y defnydd o abwyd cig mewn maglau cawell

Fe wnaethom gynnig na fyddai unrhyw drwyddedau cyffredinol a roddwn yn caniatáu defnyddio abwyd cig mewn maglau cawell, y byddai angen i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio abwyd cig wneud cais am drwydded benodol, ac os defnyddir cig ar gyfer adar denu y dylid ei dorri'n fân.

C30. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i beidio â chaniatáu'r defnydd o abwyd cig dan unrhyw drwyddedau cyffredinol a ddyroddir gan CNC?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Lleihau'r risg o ddal adar ysglyfaethus (nad ydynt yn darged) a rhywogaethau eraill o fywyd gwyllt.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae'r risg o sgil-ddalfa yn isel. Mae hwn yn ddigwyddiad prin ac, os yw rhywogaethau nad ydynt yn darged yn cael eu dal, byddant yn cael eu rhyddhau yn ddiogel beth bynnag.

- Effeithiolrwydd:
 - dylid caniatáu i'r abwyd mwyaf effeithiol gael ei ddefnyddio, a chig yw'r abwyd mwyaf effeithiol i rai rhywogaethau;
 - os na chaniateir defnyddio abwyd cig, gallai leihau'r rheolaeth ar adar gwyllt at ddibenion cadwraeth gyda goblygiadau andwyol i rywogaethau o bryder cadwraethol;
 - efallai y bydd angen abwyd cig ar ddiwedd y gaeaf (pan nad yw adar wedi newid i fwydo ar wyau eto, neu wrth weithredu heb aderyn denu), felly mae angen hyblygrwydd i gymryd y dull priodol ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- Baich rheoleiddiol:
 - mae hyn yn or-gymhleth ac yn ddryslyd, gan greu gwahaniaethau o ran y dull rhwng trwyddedau cyffredinol a thrwyddedau penodol, ac ar gyfer gwahanol fathau o adar denu;
 - mae'r angen i wneud cais am drwydded benodol i ddefnyddio abwyd cig yn anghyfartal;
 - dylai hyn fod yn gynghorol yn unig, yn hytrach nag yn waharddiad llwyr;
 - dylai CNC fabwysiadu dull mwy hyblyg Defra, sef na ddylid defnyddio abwyd cig, gan gynnwys burgynnod, oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol, gan roi cyngor ynghylch pryd y gallai fod angen defnyddio abwyd cig.

C31. Ydych chi'n cytuno bod parhau i ganiatáu'r defnydd o gig wedi'i dorri fel bwyd i adar denu yn cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng lliniaru'r risg o ddal rhywogaethau heb eu targedu a lles adar denu?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae angen ymchwil i ganfod i ba raddau y mae cig wedi'i dorri'n fân yn annog adar ysglyfaethus i mewn i faglau.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae'r cynnig yn rhy gyfyngol:
 - mae'n or-gymhleth, a gallai achosi dryswch ynghylch yr hyn a ganiateir neu yr hyn na chaniateir;
 - dylid caniatáu i adar denu y mae cig yn rhan o'u diet fwydo mor naturiol â phosibl;
 - mae'r risg o sgil-ddalfa yn dderbyniol oherwydd gall unrhyw rywogaethau nad ydynt yn darged gael eu rhyddhau yn ddiogel.
- Nid yw'r cynnig yn ddigon cyfyngol: ni ddylid caniatáu abwyd cig o gwbl, oni bai y gellir dangos nad yw'n annog adar ysglyfaethus i fynd i mewn i faglau.

Cwestiynau 32 i 34: Dull lladd adar sydd wedi'u dal

Rydym yn cynnig y dylai'r defnydd o faglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol fod yn destun amod sy'n gofyn i adar sydd wedi'u dal gael eu lladd o olwg adar eraill, ac eithrio mewn perthynas â maglau lluosog. Rydym hefyd yn cynnig gofyn i ddefnyddwyr ladd adar sydd wedi'u dal cyn gynted ag y bo modd ar ôl eu darganfod.

C32. Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau gynnwys amod sy'n gofyn bod adar sy'n cael eu dal o'r rhywogaethau targed yn cael eu lladd o olwg adar eraill sydd wedi'u dal ac adar denu, ac eithrio mewn perthynas â maglau lluosog?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- O'i weithredu, mae angen diffinio'r amod hwn yn ofalus fel nad yw'n arwain at gludo adar yn bell, neu bod adar yn cael eu cadw am gyfnodau hir ar ôl eu darganfod cyn cael eu lladd.
- Cytuno â'r dull rhagofalus o ymdrin â lles anifeiliaid y mae CNC yn ei gynnig yma, o ystyried y diffyg tystiolaeth.
- Dylid cydnabod bod bwlch yn y dystiolaeth, ond serch hynny mae'n debygol y bydd cynnydd yn y gofid i adar deallus, fel brain, mewn maglau os ydynt yn dyst i ladd adar eraill.
- Mae dull CNC yn cyd-fynd â Chod Ymarfer y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), lle na ddylid lladd fel arfer mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid eraill yn bresennol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae'r amod arfaethedig yn rhy gyfyngol, a dylai gynnwys cymhwyster 'lle bo'n rhesymol ymarferol' yn hytrach na bod yn ofyniad diamod.
- Mae'n fwy ymarferol i ladd adar sydd wedi'u dal yn y fan a'r lle, ac mae'n achosi llai o ddiodefaint.
- Nid oes tystiolaeth i gefnogi'r cynnig hwn.
- Anghysondeb â'r hyn y mae CNC yn ei gynnig mewn perthynas â maglau lluosog.

C33. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi disgrisiwn i ddefnyddwyr maglau lluosog ladd adar sydd wedi'u maglu o fewn golwg adar eraill lle maent yn ystyried y byddai'r oedi a'r trin ychwanegol wrth eu symud o'r golwg i ladd pob aderyn yn peri mwy o drallod?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Bydd dal a thynnu pob aderyn sydd wedi'i ddal cyn ei ladd yn achosi mwy o ofid na'i ladd yn y fan a'r lle.

- Mae hwn yn gyfaddawd pragmatig.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid yw trwyddedau cyffredinol yn cynnwys unrhyw ofyniad i ddefnyddwyr fod â lefel o gymhwysedd i ladd adar yn gyflym ac yn drugarog.
- Nid yw CNC wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i nodi pa ddulliau o ladd adar y dylid caniatáu eu defnyddio i ladd adar lluosog mewn un gofod mawr yn drugarog (rhoddir enghraifft o frain mewn magl lluosog yn cael eu taro â bat pêl fas).

C34. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i ddefnyddwyr maglau ladd adar sydd wedi'u maglu (y rhywogaeth darged) cyn gynted ag sy'n rhesymol ar ôl eu darganfod?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae hyn yn unol â chanllawiau arferion gorau yn y sector rheoli plâu.
- Rhybuddion yn ymwneud â chytuno â'r cynnig:
 - er budd lles anifeiliaid, dylid archwilio maglau yn aml (er enghraifft o leiaf ddwywaith y dydd);
 - dylid ystyried y defnydd o larymau sy'n ymateb i bresenoldeb adar mewn maglau, er mwyn ysgogi archwiliadau ar unwaith;
 - dylid diffinio'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'rhesymol ymarferol' yn glir.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau perthnasol.

Cwestiynau 35 a 36: Archwilio maglau cawell

Fe wnaethom gynnig gwneud y gofynion ynghylch natur archwiliadau maglau cawell yn fwy clir, a gadael 25 awr ar y mwyaf rhwng archwiliadau.

C35. Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau CNC nodi, fel amod trwydded, y materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar bob archwiliad magl cawell?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Dylai'r amod arfaethedig hwn gwmpasu o leiaf yr un materion ag sy'n benodol yn Amod 5 yn GL33 Defra yn Lloegr.
- Dylai fod angen defnyddio maglau larwm, i ategu (ond nid disodli) archwiliadau ffisegol rheolaidd.
- Dylid cael gofyniad sy'n nodi bod archwiliad magl yn ddigon gofalus fel bod y defnyddiwr yn ddigon agos i gyffwrdd â'r magl (mynegwyd pryder bod pobl sy'n

gweithredu maglau yn anghyfreithlon i ddal adar ysglyfaethus yn eu harchwilio o bell, er mwyn lleihau'r risg y byddant yn cael eu dal os bydd y magl dan wylidwriaeth).

- Mae angen i'r rhai sy'n archwilio maglau allu nodi a thrwsio unrhyw namau yn y magl ac ailgyflenwi bwyd/dŵr ar gyfer adar denu.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae hwn yn faich rheoleiddiol ychwanegol diangen:
 - mae'r cynnig yn ddiangen gan fod Deddf Lles Anifeiliaid 2006 eisoes yn mynd i'r afael â'r materion hyn;
 - mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr maglau cawell yn brofiadol ac yn deall gofynion lles anifeiliaid, ac felly byddant yn rhoi sylw i'r materion hyn beth bynnag;
 - nid yw'n ymarferol cynnwys manylebau mor fanwl mewn trwyddedau;
 - mae hyn yn ormod o waith papur / biwrocratiaeth.
- Nid oes gan CNC yr arbenigedd i nodi'r mathau hyn o amodau.
- Mae'n well i les adar denu gael ei archwilio o bell, sy'n achosi llai o aflonyddwch.

C36. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i nodi y dylai 25 awr ar y mwyaf gael ei adael rhwng archwiliadau?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Yn ddelfrydol, dylid archwilio maglau ddwywaith y dydd, yn ystod oriau golau dydd.
- Dylai uchafswm yr archwiliad fod yn fyrrach na 25 awr ar gyfer maglau llai, fel maglau cregyn bylchog.
- Er mwyn galluogi penderfyniadau ar sail tystiolaeth i gael eu gwneud ar y mater hwn, mae angen ymchwil i asesu'r effeithiau ar les anifeiliaid o'u caethiwo mewn maglau am gyfnodau gwahanol hyd at 24 awr.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Dylid darparu ar gyfer cyfnod arolygu hirach (er enghraifft 30 awr) mewn amgylchiadau eithriadol/anrhagweladwy, megis tywydd garw.

Cwestiwn 37: Y defnydd o adar denu y mae eu hadenydd wedi'u tocio

Fe wnaethom gynnig gwahardd y defnydd o adar y mae eu hadenydd wedi'u tocio fel denwyr mewn maglau cawell.

C37. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gynnwys amod sy'n gwahardd y defnydd o adar y mae eu hadenydd wedi'u tocio fel denwyr mewn maglau cawell?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae tocio adenydd yn ffurf o anafu, ac mae'r arfer o anafu adar yn greulon ac yn farbaraidd.
- Bydd adar y mae eu hadenydd wedi'u tocio yn teimlo'n fwy agored i ysglyfaethwyr yn y magl.
- Bydd aderyn y mae ei adenydd wedi'u tocio yn dioddef yn sylweddol os caiff ei ryddhau neu os bydd yn dianc.
- Nid oes angen torri adenydd adar ac nid oes unrhyw ddiben o ran effeithiolrwydd y defnydd o adar denu.
- Gwaherddir rhwymo, dallu neu anafu adar denu byw o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, felly oni bai fod CNC yn awdurdodi'r arferion hyn, maent yn droseddau. Dylai CNC felly fynd ymhellach na'r hyn sy'n cael ei gynnig a pheidio â chaniatáu i adar denu byw gael eu dallu, eu rhwymo neu eu hanafu mewn unrhyw ffordd.
- Ni ddylai CNC ganiatáu defnyddio adar denu byw o gwbl.
- Dylai CNC geisio cyngor ynghylch a yw tocio adenydd yn drosedd o dan ddeddfwriaeth lles anifeiliaid.
- Efallai na fydd pobl sy'n tocio adenydd yn gymwys i'w wneud yn iawn.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae tocio adenydd yn tawelu'r aderyn denu ac yn ei helpu i addasu i fod yn gaeth.
- Mae torri adenydd yn lleihau'r risg y bydd adar denu yn niweidio eu hunain yn y magl.
- Fel arfer, mae adar denu yn cael eu lladd ar ôl eu defnyddio yn hytrach na'u rhyddhau (nid oes rheswm i ryddhau rhywogaeth o bla), felly nid yw'n bwysig os yw eu hadenydd yn cael eu tocio.
- Mae maglau cawell sy'n defnyddio adar denu byw yn ffordd effeithiol o reoli fermin, felly ni ddylai CNC fod yn gosod cyfyngiadau pellach ar y dull hwn o reoli.

Cwestiwn 38: Gweinyddu trwyddedau sy'n caniatáu'r defnydd o faglau cawell

Fe wnaethom gynnig dyroddi trwydded gyffredinol ddynodedig sy'n nodi'r amodau safonol sy'n ymwneud â'r defnydd o faglau cawell, fel y byddai defnyddwyr, pan fydd y defnydd o faglau cawell yn cael ei awdurdodi dan unrhyw drwyddedau eraill (cyffredinol neu benodol), yn ddarostyngedig i'r amodau a thelerau safonol yn y drwydded gyffredinol ddynodedig ar gyfer maglau cawell.

C38. Ydych chi'n cytuno y dylen ni gyflwyno trwydded gyffredinol ddynodedig sy'n cynnwys amodau a thelerau safonol ar gyfer y defnydd o faglau cawell?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Byddai cael yr holl amodau yn ymwneud â maglau cawell mewn un ddogfen yn gyfeirnod defnyddiol ac yn gymorth at ddibenion hyfforddi.
- Byddai hyn yn ddefnyddiol o ran gwirio cydymffurfedd defnyddwyr ag amodau defnyddio maglau cawell.
- Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu yn Lloegr, lle bu'n ddefnyddiol o ran sicrhau bod amodau maglau cawell wedi'u safoni a'u bod yn gyson ar draws pob trwydded.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae codau ymarfer a chanllawiau eisoes yn eu lle (er enghraifft cod ymarfer y Game and Wildlife Conservation Trust ar ddefnyddio maglau Larsen) felly nid yw rheolau neu ganllawiau ychwanegol ar faglau cawell yn ddefnyddiol a gallent fod yn ddryslyd.
- Mae cael amodau maglau cawell mewn trwydded neu ddogfen ar wahân, yn hytrach nag ochr yn ochr â'r amodau eraill sydd wedi'u cynnwys o fewn trwydded benodol, yn waith papur ychwanegol annerbyniol i ddefnyddwyr trwyddedau a gallai arwain at ddryswch.
- Cytuno â'r egwyddor o gysondeb amodau maglau cawell ar draws pob trwydded gyffredinol, ond mae'n well i ddefnyddwyr trwyddedau os yw'r amodau angenrheidiol wedi'u cynnwys ym mha bynnag drwydded gyffredinol y maent yn gweithredu oddi tani.

Cwestiwn 39: Cofrestrriad neu dagio maglau cawell gorfodol

Nid yw cofrestru na thagio maglau cawell yn ffurfio rhan o'n cynigion ar y cam hwn. Rydym yn bwriadu cynnal briff gwyllo ar y cynllun cofrestru maglau yn yr Alban a gallwn ailystyried cofrestru maglau yn y dyfodol.

C39. Oes gennych farn ar a fyddai cynllun gorfodol ar gyfer cofrestru a thagio maglau yng Nghymru yn fuddiol?

Themâu yn yr ymatebion o blaid cyflwyno cofrestru gorfodol o faglau

- Hanfodol o ran galluogi gwiriadau cydymffurfio a chymau gorfodi posibl lle bo angen.
- Mae angen tagio er mwyn galluogi defnyddwyr maglau i gael eu hadnabod gyda'r safon o sicrwydd sydd ei hangen er mwyn ymchwilio i droseddau posibl. Mae diffyg tagio wedi rhwystro ymchwilio i droseddau, gan gynnwys yn ymwneud ag adar ysglyfaethus. Am yr un rheswm, mae angen cofrestru maglau i weithredwyr unigol yn hytrach nag i gwmni neu ystad.
- Mae'r nifer isel a fanteisiodd ar gynllun gwirfoddol i gofrestru a thagio maglau yn tynnu sylw at yr angen i wneud hyn yn orfodol.
- Mae trwyddedau cyffredinol yn awdurdodi defnyddio maglau cawell, a fyddai fel arall yn anghyfreithlon. Mae'n rhesymol felly y dylai fod modd i'r rhai sy'n manteisio ar y

rhanddirymiad hwn gael eu dal yn atebol, yn unol ag Egwyddor 7 arfaethedig CNC ar gyfer trwyddedau cyffredinol.

- Cyfeiriwyd at y dull a ddefnyddiwyd yn yr Alban gan NatureScot fel arfer da.

Themâu yn yr ymatebion yn erbyn cyflwyno cofrestru gorfodol o faglau

- Pryderon diogelwch data:
 - risg y bydd data personol defnyddwyr maglau cofrestredig yn cael ei ryddhau neu bod rhywun yn cael y wybodaeth yn anghyfreithlon, gan eu rhoi mewn perygl o gael eu targedu gan weithredwyr hawliau anifeiliaid o bosibl (dyfynnwyd enghraifft o ddata'n cael ei ryddhau am ddeiliaid trwyddedau drylliau);
 - gwybodaeth am leoliadau maglau yn cael ei rhyddhau, gan greu cyfleoedd ar gyfer fandaliaeth / eu difrodi.
- Biwrocratiaeth ychwanegol nad oes croeso iddi.
- Diffyg tystiolaeth o'r broblem y byddai cofrestru maglau yn ei datrys.
- Ni chadwyd at gyngor blaenorol (cyn 2019) y dylid tagio maglau, ac ni chafodd y cyngor hyd yn oed ei hyrwyddo, felly byddai hyn yn groes i egwyddorion arfaethedig CNC ar gyfer trwyddedau cyffredinol (yn benodol mewn perthynas â gorfodadwyedd).
- Dylid cael dadansoddiad o effeithiolrwydd cynllun NatureScot cyn penderfynu a ddylid cyflwyno cofrestriad maglau gorfodol yng Nghymru.

Cwestiwn 40: Safbwyntiau ychwanegol ar ddefnyddio maglau cawell

C40. Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau eraill ar y dull y dylai CNC ei ddefnyddio i reoleiddio'r defnydd o faglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt?

- Awgrymiadau ar gyfer materion ychwanegol i gael sylw mewn trwyddedau sy'n awdurdodi defnyddio maglau cawell:
 - mae nifer o amodau hanfodol neu ddefnyddiol yn GL33 Defra y dylid eu cymhwyso yng Nghymru (cyfeirir yn benodol at amodau 3 a 7 GL33);
 - dylid lleoli maglau er mwyn lleihau'r risg o ddal neu niweidio rhywogaethau nad ydynt yn darged, a lleihau'r niwed i'r magl neu unrhyw ymyrraeth gan anifeiliaid neu bobl;
 - dylai fod gofyniad i ryddhau rhywogaethau nad ydynt yn darged yn y fan a'r lle (oni bai eu bod wedi'u hanafu neu eu rhestru ar Atodlen 9 i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad);
 - os na ellir bodloni amodau, dylid ei gwneud hi'n glir na ddylid gosod maglau;

- dylai CNC ystyried cyfyngu ar y defnydd o faglau cawell yn ôl tymor a chynefin, yn bennaf er mwyn lleihau'r risg o ddal adar ysglyfaethus (maglau lluosog a nodir fel y risg fwyaf);
- dylai fod cyfyngiadau ar faint y fynedfa i faglau ysgol a thwmffat.
- Dylid cyflwyno prawf cymhwysedd ar gyfer gweithredwyr maglau (gan gymharu â'r cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer modrwyo adar).
- Cyflwyno gofyniad i ddefnyddwyr ddarparu datganiadau o niferoedd a rhywogaethau'r adar a gymerwyd.
- Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod angen rheoleiddio'r defnydd o faglau cawell ymhellach.
- Mae angen eglurder a chrynodeu iaith mewn trwyddedau. Byddai ymgysylltu parhaus â sefydliadau defnyddwyr yn helpu i sicrhau hyn.
- Dylid rhoi agwedd deg a chytbwys ar waith i sicrhau bod ffermwyr yn gallu amddiffyn eu bywoliaeth a bod rheolwyr bywyd gwyllt yn gallu parhau i reoli bywyd gwyllt.

Ystyried dulliau rheoleiddiol eraill

Cwestiwn 41: Ystyried dulliau rheoleiddiol eraill

Nid ydym ar hyn o bryd yn cynnig cyflwyno unrhyw fathau newydd o drwyddedau megis trwyddedau dosbarth, ond yn hytrach rydym yn cynnig parhau i awdurdodi rheolaeth farwol ar adar gwyllt trwy gymysgedd o drwyddedau penodol a thrwyddedau cyffredinol. Ein bwriad yw parhau i adolygu'r sefyllfa hon ac efallai y byddwn yn ystyried defnyddio trwyddedau dosbarth yn y dyfodol.

C41. A oes gennych unrhyw farn ar feysydd trwyddedu rheoli adar gwyllt lle gallai fod yn fuddiol defnyddio dull amgen o ymdrin â thrwyddedau penodol a chyffredinol?

- Cymorth ar gyfer cyflwyno trwyddedau dosbarth:
 - gellir eu defnyddio yn lle trwyddedau cyffredinol, lle mae angen mwy o dystiolaeth o'r broblem dan sylw i gyfiawnhau lladd neu gymryd adar gwyllt;
 - gallai cydran allweddol trwyddedau dosbarth fod yn fecanwaith adrodd a fyddai'n galluogi CNC i sefydlu tystiolaeth o'r broblem a chasglu data ar nifer yr adar a reolir;
 - byddai'n golygu cofrestru unigolion, a fyddai'n galluogi CNC i'w gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddwyr ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd, a galluogi CNC i wybod pwy yw'r unigolion sy'n gweithredu o dan y drwydded (cyfeirir yn benodol at reoli adar gwyllt at ddiben iechyd y cyhoedd, at ddibenion cadwraeth, ac o ran cynnal safonau lles anifeiliaid);

- byddai'n caniatáu mwy o reolaeth ar ba rywogaethau sy'n destun rheoli ac o dan ba amgylchiadau;
- gallai trwyddedau dosbarth fod yn ddefnyddiol mewn amgylchiadau cyffredin nad ydynt yn ddigon aml nac yn ddigon eang i gyfiawnhau rhoi trwydded gyffredinol, er enghraifft delio ag adar mewn mangreoedd bwyd.
- Gwrthwynebiad i gyflwyno trwyddedau dosbarth:
 - gallai ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddwyr trwyddedau ddarparu eu manylion personol i CNC eu rhoi mewn perygl pe bai eu data'n cael ei ryddhau neu'n cael ei rannu'n anghyfreithlon gan weithredwyr gwrth-saethu;
 - o ystyried y diffyg tystiolaeth presennol ynghylch a fyddai trwyddedau dosbarth o fudd ai peidio ac ym mha sefyllfaoedd, dylid eu hadolygu'n barhaus, gan ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ar y mater;
 - mae trwyddedau dosbarth yn haen arall o fiwrocratiaeth a rheoli;
 - nid oes unrhyw fanteision gwirioneddol i drwyddedau dosbarth a gallent leihau gallu pobl i reoli plâu lle bo angen (cyfeiriad penodol at frain);
 - mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol eisoes yn meddu ar dystysgrifau drylliau, ac felly maent eisoes wedi cael eu hasesu i fod yn gymwys i ddefnyddio'r drwydded.
- Dewisiadau eraill yn lle trwyddedu rheolaeth farwol:
 - dim ond trwyddedau penodol y dylid eu rhoi ar gyfer lladd adar gwyllt bob tro, a dylid eu dosbarthu'n ofalus iawn ac yn gynnil;
 - dylai fod llawer mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan adar cyn rhoi trwyddedau sy'n caniatáu rheolaeth farwol;
 - mewn perthynas â gwylanod, yn enwedig rhywogaethau ar restr coch ac oren BoCC, dylid ystyried adleoli'r adar/cywion/wyau/nythod fel y dull gweithredu diofyn neu ddewisol, cyn rhoi trwydded i ganiatáu gweithredu marwol;
 - dylem fod yn dad-ddofi ac yn adfer yr amgylchedd naturiol i fynd i'r afael â'r 'problemau' (fel y'u gelwir) a achosir gan adar gwyllt, yn hytrach na chaniatáu iddynt gael eu lladd.

Ein dull ar gyfer trwyddedu rheolaeth farwol ar adar gwylt mewn cyd-destunau penodol

Atal difrod difrifol neu ledaeniad clefydau i dda byw, bwydydd, cnydau, llysiâu neu ffrwythau

Cwestiwn 42: Priodoldeb dull trwyddedu cyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol neu ledaeniad clefydau

Fe wnaethom gynnig parhau i roi un drwydded gyffredinol at ddiben atal difrod difrifol neu ledaeniad clefydau i dda byw, bwydydd ar gyfer da byw, cnydau, llysiâu neu ffrwythau.

C42. Ydych chi'n cytuno y dylen ni barhau i ddyroddi trwydded gyffredinol unigol ar gyfer atal difrod difrifol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae GL001 yn gyfreithlon ac yn gyfarwydd i ddefnyddwyr ac nid oes unrhyw reswm i'w newid yn hyn o beth.
- Mae un drwydded gyffredinol yn effeithiol ac yn gymesur, gan awdurdodi camau marwol gan bawb y mae angen iddynt eu cymryd, yn y lle ac ar yr adeg y mae eu hangen.
- Byddai toreth o drwyddedau ar gyfer atal difrod difrifol yn arwain at ddryswch/cymhlethdod diangen. Mae angen cadw nifer y gwahanol drwyddedau cyffredinol mor isel â phosibl.
- Rhybuddion i gytuno ag un drwydded gyffredinol sy'n ymdrin â dibenion a rhywogaethau lluosog:
 - mae tystiolaeth gadarn yn dangos bod angen cynnwys pob rhywogaeth ar y drwydded;
 - mae'r drwydded yn ymwneud yn benodol â chyfuniadau o ddibenion a rhywogaethau;
 - mae'n amlwg bod rhaid i ddifrod fod yn ddifrifol – nid yw adar sydd ychydig yn niwsans yn ddigon o reswm;
 - mae'r drwydded yn cynnwys amod sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddwyr geisio defnyddio dewisiadau eraill nad ydynt yn farwol yn gyntaf;
 - gwneir trefniadau i wirio bod defnyddwyr yn gymwys i gynnal rheolaeth farwol yn drugarog;

- dylid monitro cydymffurfedd yn rheolaidd a chymryd camau gorfodi lle bo angen;
- dylai defnyddwyr trwyddedau adrodd ar y niferoedd a laddwyd, gan nodi i ba ddiben.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Anghytuno ag unrhyw drwyddedau cyffredinol, felly ni allaf gefnogi un drwydded gyffredinol at ddibenion popeth fel GL001.
- Gan nad oes fawr ddim data, os o gwbl, ar hyd a lled y defnydd o GL001, ni ellir dod i gasgliad rhesymol bod GL001 yn angenrheidiol nac yn gymesur, ac na ellid mynd i'r afael â phroblem difrod difrifol yn foddhaol trwy drwyddedu penodol.
- Dylai CNC fynd i'r afael â diffyg tystiolaeth ar ehangder rheoli adar gwyllt at y diben hwn drwy gomisiynu ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid, nid drwy ddibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd.
- Mae un drwydded gyffredinol ar gyfer cymaint o rywogaethau/dibenion yn rhy eang ac yn agored i gael ei chamddefnyddio.
- Dylai unrhyw drwydded i ladd adar gwyllt fod yn benodol i rywogaethau unigol.

Cwestiynau 43 a 44: Diffinio pa rywogaethau y gellir eu lladd ac at ba ddibenion

Fe wnaethom gynnig bod yn fwy penodol am y cyfuniadau o 'rywogaethau a dibenion' y caniateir rheolaeth farwol adar gwyllt ar eu cyfer dan drwydded gyffredinol i atal difrod difrifol neu ledaeniad clefydau.

C43. Ydych chi'n cytuno y dylai trwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol nodi pa gyfuniadau penodol o 'rywogaethau a dibenion' sy'n cael eu hawdurdodi ar gyfer rheolaeth farwol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Byddai hyn yn welliant bach, ond nid yw'n mynd i'r afael â'r prif bwynt, sef bod trwyddedau cyffredinol yn anghywir.
- Dylai unrhyw drwyddedau i ladd adar gwyllt nodi pa rywogaethau y gellir eu lladd ac at ba ddiben – mae hyn yn ofyniad sylfaenol mewn unrhyw drwydded o'r fath.
- Dylai unrhyw drwydded i ladd adar fod yn benodol i rywogaethau unigol – er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn glir ynghylch yr hyn y caniateir iddynt / na chaniateir iddynt ei wneud.
- Mae'n helpu i osgoi'r meddylfryd bod y drwydded gyffredinol yn caniatáu popeth, gan leihau'r risg y caiff trwydded ei chamddefnyddio.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Anghytuno â'r dull trwyddedu cyffredinol:
 - anghytuno ag unrhyw drwyddedau cyffredinol, felly ni allaf gefnogi'r cynnig hwn;
 - gan nad oes gan CNC unrhyw ddata ar y defnydd o drwyddedau cyffredinol, nid oes digon o dystiolaeth i seilio matrices dibenion a rhywogaethau arni;
 - cytuno â'r egwyddor y tu ôl i'r cynnig hwn, ond yn absenoldeb unrhyw fonitro o gydymffurfedd neu orfodi trwyddedau cyffredinol, neu unrhyw ofyniad ar ddefnyddwyr trwyddedau i ddarparu adroddiadau, ni fydd yn gwneud llawer o wahaniaeth o gymharu â GL001 yn ei ffurf bresennol (2021).
- Cymhlethdod diangen:
 - byddai'n gwneud y trwyddedau cyffredinol yn rhy gymhleth ac anodd eu deall;
 - gor-reoleiddio yw hyn, a byddai'r drwydded gyffredinol yn rhy gymhleth i'w gweinyddu a'i gorfodi;
 - byddai'n golygu i bob diben nad oes un drwydded gyffredinol bellach;
 - dylid dibynnu ar ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol i reoli'r rhywogaeth berthnasol at y diben perthnasol – nid oes angen i delerau'r drwydded nodi'r manylion hyn.
- Pwyntiau cyfreithiol a gweinyddol:
 - mae GL001 yn ei ffurf bresennol yn gyfreithlon, felly nid oes unrhyw reswm i'w newid;
 - dylai CNC ymgynghori â defnyddwyr cyn defnyddio'r dull hwn.
- Ystyriaethau ymarferol:
 - gallai roi defnyddwyr trwyddedau cyffredinol mewn perygl o gael eu cyhuddo'n annheg neu'n anghywir o gamddefnyddio'r drwydded;
 - mae rhai rhywogaethau adar yn achosi sawl math o broblem, a thrwy fod mor benodol, mae perygl y byddai angen rheoli rhywogaeth ond na chafodd ei chaniatáu gan y drwydded;
 - mae'r dull hwn yn rhy rhagofalus (o blaid adar, yn hytrach na ffermwyr).

C44. Oes gennych unrhyw sylwadau ar y cyfuniadau penodol o rywogaethau a dibenion rydym yn cynnig eu hawdurdodi ar gyfer rheolaeth farwol er mwyn atal difrod difrifol?

- Dim sylwadau ar y manylion penodol, oherwydd anghytuno gyda'r egwyddor o gyfyngu trwyddedau cyffredinol fel hyn. Ar hyn o bryd (2021), dylai GL001 ganiatáu i unrhyw rai o'r rhywogaethau gael eu rheoli at unrhyw un o'r dibenion.

- Dim sylwadau, oherwydd mae'r egwyddor yn iawn ond yn absenoldeb adrodd a gorfodi, ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth.
- Ystyriaeth ymarferol: mewn achosion o gydymffurfio, nid yw'n glir ble bydd y baich i brofi bod rhywun yn gweithredu o fewn cyfuniad penodol o rywogaeth a diben.
- Anghytuno â'r dull gweithredu, ond os bydd CNC yn penderfynu gwneud hyn, dylai ei seilio ar adroddiad APHA 2020 a mabwysiadu'r un cyfuniadau o rywogaethau a dibenion ag yn GL42 Defra.
- Dylid caniatáu rheoli plâu yn unrhyw le a bob amser.
- Heriau i'r dystiolaeth/cyfiawnhad ar gyfer rhywogaethau a dibenion penodol:
 - anghytuno â GL001 yn caniatáu i ladd jac-dos er mwyn atal niwed difrifol i gnydau, llysiau neu ffrwythau – nid oes tystiolaeth i gyfiawnhau hyn;
 - anghytuno â thrwydded gyffredinol sy'n caniatáu lladd brain tyddyn, piod a jac-dos er mwyn atal clefydau rhag lledaenu i dda byw neu fwydydd da byw – mae'r ffaith y gwyddys bod rhywogaeth benodol yn cario pathogenau a allai fod yn niweidiol i dda byw yn sail gwbl annigonol i gyfiawnhau ei chynnwys ar drwydded gyffredinol.
- Dylid cynyddu cwmpas GL001 i gynnwys rhywogaethau eraill:
 - dylid cynnwys mulfrain a hwyaid danheddog dan drwydded gyffredinol oherwydd y difrod y maent yn ei wneud i bysgodfeydd;
 - dylai ydfrain, drudwy, cigfrain a gwylanod fod ar drwydded gyffredinol oherwydd eu bod yn beryglus i dda byw.

Cwestiwn 45: Adegau o'r flwyddyn y gellir defnyddio trwydded gyffredinol i atal difrod difrifol

Roeddem yn cynnig parhau i **beidio** â chyfyngu ar yr adegau o'r flwyddyn y gellir defnyddio GL001.

C45. Ydych chi'n cytuno na ddylai trwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol nodi terfynau ar yr adegau o'r flwyddyn y gellir defnyddio'r drwydded?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae angen rheoli adar lle bynnag / pryd bynnag y bydd difrod difrifol yn digwydd.
- Mae rhai rhywogaethau – yn enwedig brain – yn achosi problemau trwy gydol y flwyddyn, ac nid yw'n bosibl rhagweld yn gywir yr adeg o'r flwyddyn y gallai fod angen eu rheoli o dan y drwydded gyffredinol.
- Mae GL001 yn ei ffurf bresennol (2021) yn gyfreithlon ac nid oes unrhyw reswm i'w newid.

- Byddai'n anymarferol pennu terfynau amser oherwydd cwmpas y drwydded. Byddai ceisio gwneud hynny yn ei gwneud yn rhy gymhleth ac ni fyddai wedyn yn bodloni Egyddor 7 arfaethedig CNC ar gyfer trwyddedau cyffredinol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid oes tystiolaeth sy'n cyfiawnhau caniatáu rheoli unrhyw un o'r rhywogaethau a restrir ar GL001 ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Mae unrhyw niwed a achosir gan adar gwyllt i gnydau a da byw yn dymhorol, felly dylai'r drwydded i reoli adar fod yn dymhorol hefyd.
- Dylai GL001 ganiatáu rheolaeth ar adegau o'r flwyddyn pan fydd rheolaeth yn effeithiol yn unig – mae caniatáu rheolaeth ar unrhyw adeg o'r flwyddyn yn annog difa rhagataliol heb dystiolaeth bod difa rhagataliol yn effeithiol.
- Cytuno ei bod hi'n anymarferol cynnwys terfynau amser ar drwydded gyffredinol gyda chyfuniadau lluosog o rywogaethau a dibenion, ond mae hyn yn wendid sylfaenol yn y dull y mae CNC yn ei fabwysiadu. Ar drwyddedau ar gyfer cyfuniadau penodol o ddibenion a rhywogaethau, gellid diffinio cyfyngiadau tymhorol priodol a dylid gwneud hynny.
- Pryderon yn ymwneud â lles:
 - ni ddylai trwyddedau cyffredinol ganiatáu defnyddio maglau mewn tywydd garw pan allai adar sy'n cael eu dal ac adar denu byw brofi trallod ychwanegol;
 - mae rheoli adar yn ystod y tymor bridio yn rhoi'r perygl o gywion amddifad y rhywogaeth darged yn marw o newyn.

Cwestiwn 46: Diffiniad o 'dda byw'

Fe wnaethom gynnig parhau i ddiffinio da byw yng nghyd-destun trwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol fel cynnwys anifeiliaid neu adar sydd wedi'u bridio mewn caethiwed sydd heb eu cyfyngu ond sy'n parhau i ddibynnu ar bobl yn sylweddol.

C46. Ydych chi'n cytuno gyda'r ffordd rydym yn cynnig parhau i ddiffinio da byw?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae hwn yn eglurhad defnyddiol yn benodol at ddiben GL001.
- Synnwyr cyffredin yw hyn, nid oes unrhyw fater penodol yma.
- Dylai CNC ystyried cynhyrchu canllawiau ar ystyr 'cadw'.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Dylai CNC gadw at y diffiniad statudol o dda byw a pheidio ag ychwanegu ei ddehongliad ei hun.

- Heriau i neu anghytuno â'r diffiniad statudol o dda byw, yn hytrach na dehongliad arfaethedig CNC o 'gadw':
 - ni ddylai anifeiliaid a gedwir ar gyfer chwaraeon neu oferedd (cyfeiriad arbennig at gynhyrchu ffwr) gael eu dosbarthu fel da byw;
 - mae da byw yn golygu anifeiliaid fferm sy'n cael eu magu ar gyfer bwyd neu wân, nid adar hela neu bysgod sy'n cael eu bridio ar gyfer saethu neu bysgota hamdden;
 - dylid ystyried rhywogaethau adar hela anfrodorol fel ffawna gwyllt ymledol ac nid da byw.
- Os yw adar hela yn dda byw pan fyddant yn byw'n rhydd, eu ceidwaid ddylai fod yn gyfrifol am eu lles, ac am unrhyw ddifrod neu ddamweiniau a achosir ganddynt.

Cadwraeth adar, anifeiliaid neu blanhigion gwyllt

Cwestiwn 47 i 49: Ein dull cyffredinol o roi trwyddedau at ddibenion cadwraeth

Fe wnaethom gynnig set o egwyddorion i arwain ein penderfyniadau ar a ddylen ni ddyroddi trwyddedau (trwyddedau cyffredinol neu drwyddedau penodol) sy'n galluogi rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth adar gwyllt at ddibenion cadwraeth adar gwyllt neu rywogaethau anifeiliaid neu blanhigion eraill. Fe wnaethom nodi nifer o opsiynau ynghylch dyroddi trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt yn y dyfodol.

C47. Ydych chi'n cytuno gyda'n hegwyddorion arfaethedig ar gyfer trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae angen fframwaith cadarn ar gyfer penderfynu a yw ymyrraeth (rheoli unrhywogaeth er budd y llall) wirioneddol yn briodol neu'n angenrheidiol.
- Dylai statws rhywogaeth adar ysglyfaeth hysbysu a ddylai elwa o drwyddedu cadwraeth, ond mae hyn yn fwy cymhleth na phenderfynu ar sail ei statws oren neu goch ar restr BoCC yn unig – gall rhywogaeth fod ar y rhestr oren oherwydd meini prawf ar wahân i duedd ei phoblogaeth.
- Dylid cymhwyso'r egwyddorion yn hyblyg ac yn bragmataidd fel canllaw i benderfyniadau trwyddedu, nid fel set anhyblyg o feini prawf. Bydd angen arfer barn mewn penderfyniadau unigol.
- Dylid monitro rheolaeth adar at ddibenion cadwraeth:

- mae'r egwyddorion yn cydnabod y ffaith bod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer trwyddedu yn amherffaith, sy'n atgyfnerthu'r angen i CNC gasglu a chyhoeddi data blynyddol ar nifer yr adar sy'n cael eu lladd dan drwydded;
- dylid monitro'r defnydd o GL004 i sicrhau nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddiangen er budd ymddangosiadol rhywogaethau sydd ar rhestr werdd BoCC lle nad oes angen cadwraeth i reoli ysglyfaethwyr.
- Dylai safon y dystiolaeth sydd ei hangen i gyfiawnhau rheoli adar gwyllt at ddibenion cadwraeth fod yn realistig:
 - dylid awdurdodi rheoli adar gwyllt ar ôl pwysu a mesur y tebygolrwydd y bydd yn sicrhau budd cadwraeth, yn hytrach na bod angen prawf absoliwt, a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd, os nad yn amhosibl, roi trwyddedau;
 - dylai CNC fabwysiadu egwyddor ragofalus sy'n ystyried yr effaith ar rywogaethau ysglyfaeth o beidio â rhoi trwydded gyffredinol i reoli brain at ddibenion cadwraeth.
- Dylai safon y dystiolaeth sydd ei hangen i gyfiawnhau rheoli adar gwyllt at ddibenion cadwraeth fod yn uchel / yn feichus:
 - mae angen tystiolaeth wyddonol drylwyr i ddangos y bydd rheolaeth farwol ar adar gwyllt at ddibenion cadwraeth yn cael effaith fuddiol ar rywogaethau o bryder cadwraethol;
 - dylai rheolaeth farwol fod yn ddewis olaf, a dim ond pan fydd sicrwydd bod y rhywogaeth darged yn peri risg cadwraeth y dylid ei defnyddio;
 - mae tystiolaeth o'r effaith ar rywogaethau eraill yn cyfiawnhau cynnwys brain tyddyn ar GL004 – nid oes digon o dystiolaeth y dylai piod, jac-dos neu sgrech y coed fod ar drwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth.
- Dim ond lle mae tystiolaeth o effaith ar raddfa genedlaethol y gellir cyfiawnhau trwydded gyffredinol ar lefel genedlaethol. Os yw'r budd cadwraeth yn lleol, mae trwydded benodol yn fwy priodol (darganfuwyd y thema hon hefyd yn yr ymatebion 'anghytuno' isod).
- Rhaid bod yn drugarog wrth reoli adar gwyllt at ddibenion cadwraeth, a dylid ond eu rheoli os yw'r adar yn achosi gwir broblemau.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

Mae'r egwyddorion yn rhy gyfyngol, yn enwedig mewn perthynas â rheoli brain:

- Dylai pob aderyn gwyllt gael ei ystyried yn fuddiolwr rheolaeth farwol ar frain ar draws Cymru gyfan, waeth beth fo'i statws cadwraeth – mae tystiolaeth wyddonol yn dangos bod rheoli ysglyfaethwyr yn gwella statws poblogaethau adar gwyllt.
- Mae perygl y bydd poblogaethau lleol o adar cân yn lleihau, oherwydd tybir nad oes bygythiad i'r boblogaeth genedlaethol gan frain ysglyfaethus.

- Mae'r egwyddorion yn diystyru maint poblogaeth gwirioneddol rhywogaeth restredig o frain – ni ddylai'r ffaith bod rhywogaeth yn dangos tystiolaeth o ddirywiad fod yn sail ddiagonol i'w heithrio rhag bod yn rhywogaeth darged ar GL004.
- Yn aml, nid oes tystiolaeth wyddonol gadarn ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o effeithiau ar ysglyfaethau gan ysglyfaethwyr, ac yn absenoldeb tystiolaeth gadarn, nid oes unrhyw gyfiawnhad cyfreithiol i CNC benderfynu pa rywogaethau y gellir ac na ellir eu gwarchod trwy reoli ysglyfaethwyr.
- Dylai trwyddedau cyffredinol gynnwys pob rhywogaeth estron oresgynnol lle mae tystiolaeth ei bod yn niweidio rhywogaethau sydd ar restr goch/oren BoCC.
- Dylai egwyddorion nodi'n glir y dylai fod angen tystiolaeth wyddonol drylwyr i gyfiawnhau rheoli adar gwyllt yn farwol at ddibenion cadwraeth.
- Dylai penderfyniadau trwyddedu gael eu cefnogi gan achos gwyddonol clir a dderbynnir gan bawb sydd â diddordeb.
- Dim ond lle mae tystiolaeth o effaith ar raddfa genedlaethol y gellir cyfiawnhau trwydded gyffredinol ar lefel genedlaethol. Os yw'r budd cadwraeth yn lleol, mae trwydded benodol yn fwy priodol (darganfuwyd y thema hon hefyd yn yr ymatebion 'cytuno' uchod).
- Ni ddylid bod trwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth – byddai trwyddedau penodol i fynd i'r afael â gofynion cadwraeth penodol yn fwy priodol.
- Mae'r egwyddorion wedi'u mynegi'n wael:
 - dylent fod yn ganllawiau yn hytrach na rheoliadau, gan eu bod i gyd yn gwbl anorfodadwy;
 - mae angen mwy o fanylion, er enghraifft lle mae CNC yn dweud "y dylid trwyddedu rheoli adar gwyllt dim ond pan ystyrir ei bod yn angenrheidiol er mwyn gwella statws cadwraeth un neu fwy o rywogaethau buddiolwyr" – gan bwy y caiff ei ystyried yn angenrheidiol ac yn ôl pa feini prawf?;
 - cymhleth ac agored i gamddehongli.
- Mae Cwestiwn 47 yn afresymol o ran disgwyl ateb ie/na syml ynglŷn â set gymhleth o egwyddorion.

C48. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw egwyddorion eraill y dylen ni eu dilyn wrth benderfynu ar ddyroddi trwyddedau at ddibenion cadwraeth?

- Wrth wneud penderfyniadau trwyddedu, byddai'n ddefnyddiol nodi'r prif fannau daearyddol ar gyfer rheoli brain, er enghraifft yn ôl lleoliadau rhywogaethau ysglyfaethus arbennig o agored i niwed, neu weundir sy'n cael ei reoli ar gyfer hela sydd hefyd o fudd i adar o bryder cadwraethol.

- Dylai defnyddwyr trwyddedau gael eu hachredu a dylent adrodd yn ôl ar niferoedd a rhywogaethau a laddwyd a sut mae'r gweithredoedd hyn o fudd i rywogaethau adar o bryder cadwraethol.
- Dylai CNC asesu'r adnoddau y byddai eu hangen i brosesu trwyddedau penodol yn absenoldeb trwyddedau cyffredinol.
- Dylai asesiad o'r effaith ar rywogaethau buddiolwyr o dynnu rhywogaeth o frain o'r drwydded gyffredinol fod yn egwyddor allweddol, a lle mae bwch yn y dystiolaeth, dylid cymhwyso'r egwyddor ragofalus o blaid y rhywogaeth sy'n cael budd. Dylai rhywogaeth barhau i gael ei rhestru ar GL004 hyd nes y sefydlir ei bod hi'n ddiogel (yn nhermau cadwraeth) i'w thynnu ymaith.
- Dylai fod angen cynlluniau rheoli sy'n dangos pa fesurau (fel rheoli cynefinoedd) sy'n cael eu cymryd i warchod adar gwyllt, ar wahân i reolaeth farwol ar ysglyfaethwyr rhywogaethau sydd ar rhestr goch ac oren BoCC.
- Dylid gadael ecoleg y berthynas rhwng rhywogaethau o ysglyfaethwyr ac ysglyfaethau i brosesau naturiol.

C49. Ydych chi'n meddwl y dylem (1) gadw trwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth adar gwyllt pan fo'r dystiolaeth yn dangos bod trwydded gyffredinol yn briodol, (2) peidio â rhoi trwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth adar gwyllt, (3) casglu tystiolaeth ar y graddau y defnyddir GL004 cyn gwneud y penderfyniad hwnnw, (4) mabwysiadu dull arall?

Themâu mewn ymatebion sy'n cefnogi Opsiwn 1: Cadw trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth

- Dim ond ar gyfer rheoli brain tyddyn.
- Cadw GL004 a gwneud newidiadau llai manwl yn unig: mae trwyddedau cyffredinol wedi bod yn destun her gyfreithiol a chanfuwyd eu bod yn gyfreithlon.
- Mae trwyddedau cyffredinol yn gyfarwydd ac yn cael eu deall gan ymarferwyr.
- Pryderon am ddewisiadau amgen i drwydded gyffredinol:
 - bydd unrhyw opsiwn arall yn cyflwyno biwrocratiaeth ddiangen ac yn niweidiol i fywyd gwyllt a defnyddwyr sy'n dibynnu ar drwyddedau cyffredinol;
 - gall gymryd wythnosau lawer i gyflwyno ceisiadau am drwyddedau penodol, gan achosi straen a dioddefaint diangen i rywogaethau ysglyfaeth a difrod difrifol i gnydau;
 - system adrodd neu drwydded dosbarth – mae CNC ei hun wedi cydnabod yn y papur ymgynghori na fyddai gwerth yr wybodaeth a geir o system adrodd ar gyfer trwyddedau cyffredinol yn cael ei gyfiawnhau gan y baich ychwanegol o weithredu trefniadau o'r fath;

- system adrodd neu drwydded dosbarth – pryderon ynghylch risg i ddiogelwch defnyddwyr trwyddedau os oes rhaid iddynt roi eu manylion personol i CNC neu gofnodion o'r camau a gymerwyd o dan y drwydded.

Themâu mewn ymatebion sy'n cefnogi Opsiwn 2:Peidio â rhoi trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth

- Mae trwyddedau cyffredinol yn rhy eang ac yn amhenodol o ran amgylchiadau defnydd.
- Mae trwyddedau cyffredinol yn rhy agored i'w dehongli ac i gael eu camddefnyddio i ladd adar pan nad oes angen.
- Dylai pob trwydded at ddibenion cadwraeth fod yn benodol. Nid yw trwyddedau cyffredinol yn ddull cymesur o ddatrys problemau cadwraeth ac mae angen ystyried achosion penodol.
- Mae'r dystiolaeth wyddonol yn rhy amwys i roi trwydded gyffredinol – mae angen dealltwriaeth wyddonol glir o'r berthynas rhwng ysglyfaethwyr ac ysglyfaethau. Mae pob achos yn wahanol ac felly dim ond trwyddedau penodol sy'n briodol.

Themâu mewn ymatebion sy'n cefnogi Opsiwn 3:Casglu tystiolaeth ar ddefnyddio GL004 cyn gwneud unrhyw newidiadau

- Dylai CNC gasglu tystiolaeth ar rywogaethau a niferoedd yr adar a laddwyd, ac i ba ddiben y gwnaed hynny.
- Bydd yn helpu i sicrhau bod polisi a phenderfyniadau trwyddedu yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Dylai CNC gasglu tystiolaeth wyddonol ar gysylltiadau penodol rhwng ysglyfaethwyr ac ysglyfaethau, ac adolygu'r dystiolaeth honno'n rheolaidd.

Themâu mewn ymatebion sy'n cefnogi Opsiwn 4:Mabwysiadu dull arall

- Dylai CNC ystyried trwydded dosbarth ar gyfer gwarchod adar gwyllt.

Cwestiynau 50 i 56: Ein dull o benderfynu ar y rhywogaethau buddiol a'r rhywogaethau targed ar drwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth adar gwyllt

Gofynnwyd am farn ar nifer o ddulliau ar gyfer penderfynu pa rywogaethau sy'n addas i'w cynnwys ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt.

C50. Ydych chi'n cytuno mai'r sail fwyaf priodol ar gyfer nodi rhywogaeth fuddiol trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt yw: rhywogaethau sydd ar y rhestr goch neu oren sy'n bridio'n rheolaidd yng Nghymru ac sy'n cael eu

hystyried yn agored i niwed gan ysglyfaethwyr sy'n perthyn i un neu'n fwy o'r rhywogaethau brain dan sylw?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae rhestrau rhywogaethau BoCC yn addas at y diben. Mae rhywogaethau sydd ar y rhestr goch ac oren yn flaenoriaethau ar gyfer gwarchodaeth, er y gall rhywogaethau eraill hefyd fod yn sail i drwyddedu mewn ardaloedd penodol.
- Mae hyn yn gwneud synnwyr mewn perthynas â'r drwydded gyffredinol, ond gall fod yn briodol i rywogaethau eraill fod yn fuddiolwyr trwyddedau penodol at ddibenion cadwraeth.
- Cytuno, ar yr amod bod y dull wedi'i seilio ar ddata cyfoes cadarn ac nid ar hanesion.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid yw'n glir beth mae CNC yn ei olygu wrth "cael eu hystyried yn agored i niwed".
- Mae rhai rhywogaethau ar y rhestr werdd mewn cyflwr ffafriol oherwydd eu bod yn elwa o reolaeth ysglyfaethwyr hanesyddol. Bydd poblogaethau'n prinhaus heb drwydded gyffredinol ar gyfer cadwraeth pob aderyn gwyllt.
- Dylai CNC fonitro'r effaith y bydd y newid arfaethedig hwn yn ei chael ar rywogaethau sydd ar y rhestr werdd.
- Mae rhestrau coch ac oren ar raddfa rhy eang ac nid ydynt yn dangos dirywiad ar lefel leol.
- Ni ddylai CNC aros nes bod rhywogaeth ar y rhestr goch neu oren cyn caniatáu rheoli ei ysglyfaethwyr.
- Mae ysglyfaethu brain yn effeithio ar rywogaethau cyffredin a rhai sy'n agored i niwed – nid yw brain yn gwneud y gwahaniaeth.
- Ni ddylai rhywogaethau sy'n cael budd o drwydded gyffredinol gynnwys rhywogaethau lle nad oes tystiolaeth eu bod yn bridio yng Nghymru, a lle nad oes tystiolaeth bod angen rheoli ysglyfaethu i'w gwarchod.
- Nid oes unrhyw gyfiawnhad cyfreithiol i CNC benderfynu pa rywogaethau y dylid eu gwarchod ac na ddylid eu gwarchod.

C51. Ydych chi'n cytuno y dylai trwydded gyffredinol at ddiben cadwraeth adar gwyllt barhau i fod yn gyfyngedig i gadwraeth cywion neu wyau'r rhywogaeth fuddiol yn unig?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Nid oes unrhyw dystiolaeth wyddonol i ddangos bod unrhyw frain a restrir ar GL004 yn achosi effeithiau ar raddfa boblogaeth ar rywogaethau sydd ar y rhestr goch ac oren o bryder cadwraethol.

- Os oes unrhyw dystiolaeth bod brain yn ysglyfaethu oedolion o rywogaeth fuddiol, trwydded benodol yw'r dull trwyddedu priodol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae brain yn ysglyfaethu adar aeddfed.
- Rhaid i gadwraeth y rhywogaeth fuddiol gynnwys yr adar aeddfed, sydd hefyd yn agored i ysglyfaethu, yn rhesymegol, nid gwarchod yr wyau neu'r cywion yn unig.
- Nid ysglyfaethu yw'r unig broblem: gall presenoldeb rhywogaethau o frain atal tiriogaethedd, carwriaeth a datblygu perthynas rhwng parau mewn rhywogaethau eraill.
- Mae nodi cywion ac wyau ym mhwrpas y drwydded yn creu dryswch ac nid yw'n adlewyrchu'r pwrpas a nodir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

C52. Ydych chi'n credu na ddylai trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt gynnwys cyfyngiadau ar adeg y flwyddyn pan fo modd dibynnu ar drwydded?

Themâu mewn ymatebion o blaid cynnwys cyfyngiadau amser

- Dim ond yn ystod tymor bridio'r rhywogaeth a warchodir y dylai'r trwyddedau fod yn berthnasol, neu fel arall mae rhesymeg y pwrpas cadwraeth sy'n berthnasol i wyau a chywion y rhywogaeth fuddiol yn unig yn cael ei thanseilio.
- Dim ond yn ystod cyfnod nad oes bridio y dylai'r drwydded fod yn berthnasol, er mwyn osgoi newynu cywion dibynnol yr adar a dargedir.
- Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i drwyddedau fod yn benodol i adegau penodol o'r flwyddyn.
- Nid yw CNC wedi darparu tystiolaeth sy'n dangos bod angen rheolaeth drwy gydol y flwyddyn at ddibenion cadwraeth.
- Byddai pennu'r adeg o'r flwyddyn yn helpu i atal camddefnyddio GL004.
- Dylai'r drwydded fod yn gymwys o 1 Chwefror, oherwydd gall y cyfnod cyn dodwy wyau fod yn bwysig i leihau dwysedd ysglyfaethwyr.
- Yn ogystal â therfynau tymhorol, dylai'r drwydded ddiffinio ardaloedd daearyddol lle gellir ei defnyddio ac na ellir ei defnyddio.

Themâu mewn ymatebion yn erbyn cynnwys cyfyngiadau amser

- Mae angen rheoli brain trwy gydol y flwyddyn: mae angen ymdrech barhaus a champau ataliol i leihau pwysau ysglyfaethu er mwyn gwarchod poblogaethau adar gwyllt.
- Mae'r gallu i reoli trwy gydol y flwyddyn yn hwyluso'r angen am ddifa os yw'r niferoedd yn ormodol cyn dechrau'r tymor bridio.

- Gallai cyfyngu rheolaeth i adegau penodol o'r flwyddyn wneud rhai dulliau'n aneffeithiol neu'n anefnyddiadwy, gan leihau effeithiolrwydd cyffredinol rhaglenni rheoli ysglyfaethwyr.
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amseriadau tymor bridio adar.
- Efallai y bydd angen rheoli ysglyfaethwyr mewn gwahanol ranbarthau ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- Mae rhywogaethau o frain yn newid i ysglyfaethu adar aeddfed y tu allan i'r tymor bridio adar.

C53. Ydych chi'n cytuno na ddylai brain tyddyn barhau i gael eu cynnwys ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos bod brain tyddyn yn ysglyfaethu wyau a chywion adar gwyllt eraill. Dylid rheoli poblogaethau i atal niwed i boblogaethau adar gwyllt.
- Cytuno os yw'r dystiolaeth wyddonol yn dangos effaith ar bob rhywogaeth sydd ar y rhestr goch neu oren.
- Cytuno ar yr amod mai dim ond ar yr adegau o'r flwyddyn mewn ardaloedd daearyddol lle maent yn achosi niwed y caniateir rheoli brain tyddyn.
- Cytuno os yw'r drwydded yn nodi'n glir ac yn gynhwysfawr ymhle, pryd a pham y caniateir rheoli brain tyddyn.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid oes digon o dystiolaeth wyddonol o effaith brain tyddyn ar adar o bryder cadwraethol. Dim ond os oes tystiolaeth glir o ysglyfaethu y dylid caniatáu rheoli brain tyddyn er mwyn gwarchod rhywogaethau.
- Dylid defnyddio dulliau nad ydynt yn farwol.
- Mae lladd brain tyddyn yn ateb syml i broblem gymhleth. Mae rheoli cadwraeth yn gofyn am ymchwil wyddonol, addysg a chynllunio hirdymor.
- Ni ddylai CNC roi trwyddedau cyffredinol o gwbl – maent wedi'u diffinio'n rhy eang, yn annelwig, yn agored i'w camdefnyddio ac yn anorfodadwy.

C54. Ydych chi'n cytuno y dylai sgrech y coed barhau i gael eu cynnwys ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt, ond mewn perthynas â chadwraeth rhywogaethau adar coetir yn unig?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos yn glir, heb unrhyw amheuaeth, bod sgrech y coed yn ysglyfaethwyr sylweddol o wyau a chywion rhai rhywogaethau eraill sy'n bridio yng Nghymru ac sydd ar rhestr goch neu oren BoCC.
- Ar yr amod mai dim ond ar yr adegau o'r flwyddyn mewn ardaloedd daearyddol lle maent yn achosi niwed y caniateir rheoli sgrech y coed.
- Mae sgrech y coed wedi cynyddu'n sylweddol mewn niferoedd a gwasgariad, sydd wedi cyfrannu at ddirywiad rhywogaethau adar coetir.
- Yn absenoldeb tystiolaeth, dylid mabwysiadu dull rhagofalus (o blaid y rhywogaethau y mae sgrech y coed yn ysglyfaethu arnynt).
- Rhybuddion yn ymwneud â chytuno â'r cynnig hwn: ni ddylid cyfyngu rheolaeth sgrech y coed i'r diben o warchod rhywogaethau o gynefinoedd coetir sydd ar y rhestr goch neu oren yn unig.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Nid oes digon o dystiolaeth wyddonol o effaith sgrech y coed ar adar o bryder cadwraethol. Dim ond os oes tystiolaeth glir o ysglyfaethu y dylid caniatáu rheoli sgrech y coed at ddibenion gwarchod rhywogaethau.
- Dylid defnyddio dulliau nad ydynt yn farwol.
- Mae poblogaethau sgrech y coed yn gostwng ledled y DU.
- Nid oes unrhyw sefydliadau cadwraeth natur yn galw am ostyngiad yn niferoedd sgrech y coed oherwydd eu heffaith andwyol ar rywogaethau eraill.
- Dylid tynnu sgrech y coed o'r drwydded gyffredinol a rhoi trwyddedau penodol mewn lleoliadau lle gellir dangos tystiolaeth briodol o'r angen am reoli sgrech y coed.
- Ni ddylai CNC roi trwyddedau cyffredinol o gwbl – maent wedi'u diffinio'n rhy eang, yn annelwig, yn agored i'w camdefnyddio ac yn anorfodadwy.

C55. Ydych chi'n cytuno na ddylai jac-dos gael eu cynnwys bellach ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Nid oes tystiolaeth wyddonol wedi'i phrofi sy'n dangos bod jac-dos yn ysglyfaethwr mawr o unrhyw rywogaeth ar y rhestr goch neu oren – ategir hyn gan ganfyddiadau diweddar APHA.
- Nid yw'r drwydded gyffredinol yn gosod unrhyw gyfyngiad ar nifer y jac-dos y gellir eu lladd ac ar gyfer pa amgylchiadau rhwng ysglyfaethwyr ac ysglyfaethau.
- Dylid tynnu jac-dos oddi ar y drwydded gyffredinol a rhoi trwyddedau penodol mewn lleoliadau lle gellir dangos tystiolaeth briodol o'r angen am reoli jac-dos.

- Nid oes unrhyw sefydliadau cadwraeth natur yn galw am ostyngiad yn niferoedd jac-dos oherwydd eu heffaith andwyol ar rywogaethau eraill.
- Ni ddylai CNC roi trwyddedau cyffredinol o gwbl – maent wedi'u diffinio'n rhy eang, yn annelwig, yn agored i'w camddefnyddio ac yn anorfodadwy.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae tystiolaeth anecdotaidd a gwyddonol yn dangos bod jac-dos yn ysglyfaethu wyau a chywion adar gwyllt eraill.
- Mae adroddiad APHA yn datgan, "Overall, there is medium-low strength of evidence for an impact of jackdaw on the conservation of wild birds." Nid yw'n datgan nad oes tystiolaeth nac effaith.
- Mae poblogaethau jac-dos wedi cynyddu'n sylweddol mewn niferoedd a gwasgariad, sydd wedi cyfrannu at ddirywiad nifer o rywogaethau adar sydd ar y rhestr goch/oren.
- Yn absenoldeb tystiolaeth, dylid mabwysiadu dull rhagofalus (o blaid y rhywogaethau y mae jac-dos yn ysglyfaethu arnynt).

C56. Ydych chi'n meddwl bod pïod yn addas i'w cynnwys ar drwydded gyffredinol at ddiben gwarchod adar gwyllt yng ngoleuni'r dystiolaeth o'u heffaith00103}?

Themâu yn yr ymatebion

- Dylai pïod fod ar drwydded gyffredinol ar gyfer gwarchod adar gwyllt:
 - mae tystiolaeth wyddonol, gan gynnwys adroddiad APHA, yn dangos y tu hwnt i unrhyw amheuaeth wyddonol fod pïod yn ysglyfaethwyr sylweddol o wyau a chywion adar sydd ar y rhestr goch ac oren sy'n bridio yng Nghymru;
 - mae niferoedd pïod wedi cynyddu, sydd wedi cyfrannu at ddirywiad rhywogaethau adar gwyllt eraill;
 - heb reolaeth ddigonol, bydd poblogaethau pïod yn cynyddu'n sylweddol (enghraifft o ardaloedd maestrefol yn dod yn 'gronfeydd' ar gyfer pïod);
 - mae CNC yn anghywir i gymhwyso system restru coch/oren BoCC i benderfynu a ddylai rhywogaeth gael ei restru ar drwyddedau cyffredinol, gan fod BoCC yn gategori rhy fras ac nid yw'n ystyried helaethrwydd yr ysglyfaethwyr o'i gymharu â helaethrwydd eu rhywogaethau ysglyfaeth – byddai rhestr 'peryl o ddiflannu' yr IUCN yn sail well i'r penderfyniadau hyn;
 - dylid cadw pïod ar GL004 am y tro, ond craffu ar y bylchau yn y dystiolaeth a rhoi sylw priodol iddynt mewn adolygiadau trwydded gyffredinol yn y dyfodol.
- Ni ddylai pïod fod ar drwydded gyffredinol ar gyfer gwarchod adar gwyllt:
 - oherwydd arwyddocâd y gostyngiad ym mhoblogaeth pïod Cymru;

- nid oes tystiolaeth wyddonol i gefnogi'r farn bod piöod yn y DU yn effeithio ar boblogaethau adar gwyllt, yn enwedig adar cân;
- ni ddylai CNC roi trwyddedau cyffredinol o gwbl – maent wedi'u diffinio'n rhy eang, yn annelwig, yn agored i'w camddefnyddio ac yn anorfodadwy.

Diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd ac atal lledaeniad clefydau

Cwestiynau 57 a 58: Rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar drwydded gyffredinol ar gyfer diogelu iechyd/diogelwch y cyhoedd

Fe wnaethom gynnig parhau i roi trwydded gyffredinol i ganiatáu rheolaeth farwol ar golomennod gwyllt er mwyn diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd ac atal lledaeniad clefydau.

Fe wnaethom gynnig peidio â chynnwys unrhyw rywogaethau eraill ar drwydded gyffredinol at ddibenion iechyd/diogelwch y cyhoedd.

C57. Ydych chi'n cytuno y dylen ni barhau i ddyroddi trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol colomennod gwyllt at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae colomennod gwyllt yn cario pathogenau ac yn achosi risg sydd wedi'i dogfennu'n dda i iechyd y cyhoedd trwy ledaenu afiechyd.
- Mae niferoedd colomennod gwyllt yn cynyddu, ac felly hefyd mae'r perygl i iechyd y cyhoedd hefyd yn cynyddu.
- Mae'n lleihau'r baich ar CNC i roi trwydded gyffredinol yn hytrach na bod angen trwyddedau penodol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Gellir delio'n ddigonol â cholomennod gwyllt trwy ddulliau atal heb fod angen rheolaeth farwol.
- Nid yw difa colomennod yn ateb hirdymor digonol.
- Dylai CNC weithio gyda thirfeddianwyr i annog rhywogaethau fel yr hebog tramor i atal colomennod gwyllt, a gweithio gyda'r cyhoedd i leihau'r ymddygiadau (fel bwydo a gollwng sbwriel) sy'n cynyddu poblogaethau colomennod gwyllt, fel bod y drwydded gyffredinol yn dod yn ddiangen yn y pen draw.
- Efallai na fydd rhai pobl yn gallu gwahaniaethu rhwng colomennod gwyllt ac ysguthanod, gan greu risg o reolaeth farwol ar y rhywogaeth anghywir.

- Anghytuno gyda thrwyddedau cyffredinol yn gyffredinol.

C58. Ydych chi'n cytuno na ddylem ddyroddi trwydded gyffredinol at ddibenion iechyd y cyhoedd sy'n caniatáu rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth ac eithrio colomennod gwyllt?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Ychydig o dystiolaeth sydd o drosglwyddo clefydau o unrhyw rywogaethau adar eraill i fodau dynol. Mae'r risg o'r fath drosglwyddo yn isel a gellir ei lliniaru heb droi at reolaeth farwol.
- Oherwydd y diffyg tystiolaeth, byddai cynnwys unrhyw rywogaethau oni bai am golomennod gwyllt ar drwydded gyffredinol at ddibenion iechyd/diogelwch y cyhoedd yn gosod cysail peryglus i ganiatáu lladd adar am resymau annyls.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae rhywogaethau eraill o adar y mae eu niferoedd yn cynyddu yn peri risg i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gwyddau Canada, ydfrein a jac-dos.
- Mae adroddiad 2020 APHA, 'Review of the evidence base for inclusion of avian species on general licences GL34, GL35 and GL36 in England', yn cyfiawnhau cynnwys gwyddau Canada, colomennod gwyllt a jac-dos ar drwydded gyffredinol ar gyfer iechyd/diogelwch y cyhoedd.
- Dylid cynnwys piod, gan eu bod yn targedu llaeth sy'n cael ei ddanfôn i'r drws.
- Dylid cynnwys gwylanod:
 - gallant achosi risg i iechyd y cyhoedd mewn ffordd debyg i golomennod gwyllt, er enghraifft halogi ardaloedd bwyd;
 - maent yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd drwy fynd yn ymosodol ac ymosod ar bobl.
- Dylid cynnwys brain tyddyn gan y gall eu baw gael ei sathru a'i gario i adeiladau cyhoeddus.
- Gall drudwy fod yn waeth na cholomennod gwyllt gan eu bod yn halogi ffynonellau dŵr ac yn gorchuddio lloriau ag ysgarthion.

Cwestiwn 59: Ein dull gweithredu ar gyfer trwyddedu rheolaeth gwylanod

Fe wnaethom gynnig gwneud cynllun rheoli gwylanod yn ofynnol mewn unrhyw gais am drwydded i reoli gwylanod mewn sefyllfa drefol.

C59. Ydych chi'n cytuno y dylai CNC ofyn am gynllun rheoli gwylanod fel rhan o unrhyw gais am drwydded i reoli gwylanod mewn sefyllfa drefol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae'r dull hwn wedi gweithio'n dda yn Lloegr, gan symleiddio'r broses ymgeisio ac annog pobl i ddefnyddio dull cydgysylltiedig o reoli gwylanod, mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- Dylai ceisiadau i reoli gwylanod (yn enwedig rhywogaethau sydd ar y rhestr goch neu oren) gynnwys tystiolaeth o ymgeisiadau aflwyddiannus i fynd i'r afael â'r problemau gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn farwol.
- Mae'r problemau a achosir gan wylanod yn ganlyniad i ymddygiad dynol.
- Pryderon ynghylch cymhwysedd y rhai sy'n rheoli gwylanod i adnabod rhywogaethau penodol yn gywir.
- Mae angen canllawiau i helpu ymgeiswyr am drwyddedau i baratoi cynlluniau rheoli.
- Dylid ailedrych ar ddull CNC o drwyddedu gwylanod unwaith y bydd strategaeth adar môr Llywodraeth Cymru wedi'i chwblhau, oherwydd gallai hon lywio a yw annog adar trefol i adleoli i ardaloedd gwledig yn realistig o ystyried y ffactorau sy'n llywio'r newidiadau yn y boblogaeth.
- Dylai trwyddedu gwylanod fod yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gadarn o'r problemau y maent yn eu hachosi ac effeithiolrwydd dulliau ar gyfer eu rheoli.
- Dylid rhoi olew ar wyau i reoli gwylanod.
- Dylid cyfiawnhau rheolaeth farwol ar unrhyw rywogaeth o wylanod sydd ar y rhestr oren neu goch (er enghraifft yn dirywio oherwydd gorbysgota) yn llawn: nid yw eu hystyried yn niwsans yn gyfiawnhad digonol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Anghytuno cyffredinol gyda'r cynnig ar gyfer cynlluniau rheoli:
 - mae gwylanod yn niwsans ac mae angen eu rheoli;
 - dylai rheoli gwylanod fod o dan drwydded gyffredinol.
- Problemau ymarferol gyda chynlluniau rheoli:
 - mewn rhai sefyllfaoedd mae'r broblem yn un benodol a thymor byr, er enghraifft yr angen i gael gwared ar un nyth gwylan – mae gofyn am gynllun rheoli yn anghymesur;
 - mae gwylanod yn ddeallus – nid yw dulliau nad ydynt yn farwol yn gweithio.
- Dylid defnyddio dewisiadau eraill yn lle rheolaeth farwol:

- byddai gwell hylendid trefol a lleihau sbwriel yn ateb mwy ymarferol na rheolaeth farwol;
- dylid annog a chefnogi ymgeiswyr am drwyddedau i baratoi cynlluniau rheoli gwylanod gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn farwol yn unig;
- mae nifer o rywogaethau o wylanod bellach yn prinhaus ac felly nid oes angen eu rheoli ymhellach ar ffurf rheolaeth farwol.

Gwarchod diogelwch yn yr awyr

Cwestiynau 60 a 61: Trwyddedu at ddiben gwarchod diogelwch yn yr awyr

Fe wnaethom gynnig parhau i awdurdodi rheolaeth farwol ar adar gwyllt at ddibenion diogelwch yn yr awyr o dan drwyddedau penodol yn hytrach nag o dan drwydded gyffredinol, a'i gwneud hi'n ofynnol i geisiadau am drwyddedau at ddibenion diogelwch yn yr awyr gynnwys cynllun rheoli priodol ar gyfer sut y bydd risgiau bywyd gwyllt ar safle'r maes glanio yn cael eu rheoli.

C60. Ydych chi'n cytuno y dylai CNC barhau i drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion gwarchod diogelwch yn yr awyr drwy drwyddedau penodol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Nid yw trwyddedau dosbarth neu gyffredinol yn angenrheidiol nac yn gymesur, o ystyried y nifer fach o feysydd glanio yng Nghymru.
- O ystyried y gallai peidio â rheoli adar roi bywydau mewn perygl, dylid rhoi trwyddedau ond dylai lladd adar fod yn ddewis olaf. Dylid rhoi cynnig ar ddulliau nad ydynt yn farwol yn gyntaf bob amser.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Byddai trwydded gyffredinol ar gyfer diogelwch yn yr awyr yn ddull mwy ymarferol a hyblyg.
- Dylai CNC ystyried trwydded dosbarth ar gyfer diogelwch yn yr awyr, fel yn Lloegr.
- Ni ddylai CNC fod yn rhoi trwyddedau i ddinistrio bywyd gwyllt er mwyn hwyluso dull trafndiaeth anghynaliadwy.
- Dylid defnyddio dulliau nad ydynt yn farwol i atal adar o feysydd awyr.
- Nid oes angen trwyddedau rheoli adar er diogelwch yn yr awyr beth bynnag, oherwydd yr amddiffyniad dan adran 4 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

C61. Ydych chi'n cytuno bod angen i geisiadau i reoli adar at ddibenion diogelwch yn yr awyr gynnwys cynllun rheoli priodol ar gyfer sut y bydd risgiau i fywyd gwyllt ar safle'r maes glanio yn cael eu rheoli?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Dylai cynlluniau rheoli bywyd gwyllt nodi dull clir a threfnus, wedi'i deilwra i'r safle a'r rhywogaeth dan sylw.
- Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod bob amser yn rhoi cynnig ar ddulliau nad ydynt yn farwol cyn troi at reolaeth farwol.
- Dylai cynlluniau rheoli bob amser gydnabod y defnydd o fesurau farwol lle bo angen.
- Nid yw'r holl fywyd gwyllt yn peri risg i ddiogelwch yn yr awyr.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Dylai diogelwch yn yr awyr fod yn flaenoriaeth dros bob ystyriaeth arall – ni ddylai biwrocratiaeth fod yn rhwystr.
- Dylai asesiadau risg a mesurau lliniaru presennol sy'n ymwneud ag adar yn taro awyrennau fodloni gofyniad arfaethedig CNC am gynllun rheoli.

Adar sy'n bwyta pysgod

Cwestiwn 62: Trwyddedau penodol ar gyfer rheolaeth farwol mulfrain a hwyaid danheddog

Fe wnaethom gynnig y dylai unrhyw waith i reoli mulfrain a hwyaid danheddog yn farwol at ddibenion atal difrod difrifol i bysgodfeydd ac ar gyfer cadwraeth fflora a ffawna barhau i gael ei reoleiddio dan drwyddedau penodol.

C62. Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw waith i reoli mulfrain neu hwyaid danheddog yn farwol at ddibenion atal difrod difrifol i bysgodfeydd neu ar gyfer cadwraeth fflora neu ffawna fod yn destun trwyddedau penodol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Manteision trwyddedu penodol yn hytrach na thrwyddedau cyffredinol:
 - mae trwyddedu cyffredinol yn rhy agored a gallai arwain at gamddefnydd – mae trwyddedu penodol yn galluogi CNC i osod cyfyngiadau ar nifer yr adar sy'n cael eu lladd a gosod amodau llym, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol;
 - mae dosbarthiad cymharol leol a natur sy'n benodol i gynefin mulfrain a hwyaid danheddog, a natur dymhorol eu heffaith, yn golygu bod trwyddedu penodol yn ddull cymesur ar gyfer y ddwy rywogaeth.
- Ni ddylid rheoli adar sy'n bwyta pysgod yn farwol ar wahân:

- dim ond ar y cyd â mesurau eraill i warchod poblogaethau pysgod y dylid gweithredu rheolaeth farwol, megis cael gwared ar rwystrau sy'n atal pysgod rhag mudo/symud;
- yn wahanol i drwyddedau cyffredinol, mae ceisiadau am drwyddedau penodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd ddangos ei fod wedi rhoi cynnig ar dulliau nad ydynt yn farwol.
- Mae'r diffiniad o 'bysgodfeydd' yn hollbwysig. Ni ddylid lladd adar sy'n bwyta pysgod er budd pysgodfeydd hamdden, ond dim ond lle mae tystiolaeth wyddonol sy'n dangos bod poblogaeth leol o bysgod gwyllt dan fygythiad gan boblogaeth leol o adar sy'n bwyta pysgod.
- Grŵp Cyngori Adar sy'n Bwyta Pysgod CNC sydd yn y sefyllfa orau i gynghori ar y mater hwn.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae effaith mulfrain a hwyaid danheddog yn cyfiawnhau eu cynnwys ar drwydded gyffredinol:
 - mae'n bosibl mai ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at y dirywiad dramatig yn stociau eogiaid yn afonydd Cymru;
 - dylid ychwanegu mulfrain a hwyaid danheddog at drwyddedau cyffredinol, ond dim ond mewn dalgylchoedd sydd wedi'u dosbarthu yn y categorïau 'Mewn perygl' neu 'Mewn perygl yn ôl pob tebyg' ar gyfer terfynau cadwraeth ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr;
 - mae poblogaethau Cymru o'r ddwy rywogaeth yn cynyddu;
 - dylai'r dull gweithredu fod yn gyson – er enghraifft, rhestrir brain tyddyn ar GL001 at ddiben atal difrod difrifol i dda byw – mae effaith adar sy'n bwyta pysgod ar bysgodfeydd yn gyfwerth.
- Mae trwyddedu penodol yn fiwrocraataidd ac yn rhy araf. Erbyn i drwyddedau gael eu rhoi, mae'r difrod eisoes wedi digwydd.
- Dylai cynnig CNC i adolygu trwyddedau cyffredinol yn rheolaidd yn erbyn poblogaeth rhywogaethau targed y drwydded fod yn ddigon o fesur diogelu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch effaith rheolaeth dan drwydded gyffredinol ar boblogaethau mulfrain a hwyaid danheddog.

Cwestiynau 63 i 67: Datblygu offerynnau a dulliau ar gyfer trwyddedu rheolaeth farwol ar fulfrain a hwyaid danheddog

Gofynnwyd am safbwyntiau i helpu i lywio gwaith parhaus y Grŵp Cyngori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod ar y canlynol:

- datblygu a defnyddio offeryn modelu dadansoddi hyfywedd poblogaeth i ragfynegi effaith lefelau gwahanol o reolaeth farwol drwyddedig ar boblogaethau mulfrain a hwyaid danheddog yng Nghymru;
- cymhwyso trothwy trwyddedu sy'n gosod terfyn ar nifer y mulfrain a hwyaid danheddog y gellir eu trwyddedu i gael eu rheoli yng Nghymru, ar sail modelu poblogaeth;
- cymhwyso trwyddedau ardal neu ddalgylch ar gyfer rheoli mulfrain a hwyaid danheddog yng Nghymru yn farwol;
- effeithiolrwydd dulliau marwol a dulliau nad ydynt yn farwol o reoli mulfrain a hwyaid danheddog;
- yr angen am gynlluniau rheoli i gefnogi ceisiadau trwydded penodol ar gyfer unrhyw reolaeth farwol ar mulfrain a hwyaid danheddog.

C63. Oes gennych unrhyw farn ar ddatblygu a defnyddio offeryn modelu dadansoddi hyfywedd poblogaeth i ragfynegi effaith lefelau gwahanol o reolaeth farwol drwyddedig ar boblogaethau mulfrain a hwyaid danheddog yng Nghymru?

- Dylid mabwysiadu ymagwedd wyddonol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at ddatblygu a chymhwyso dadansoddiad o hyfywedd poblogaeth.
- Dylai allbynnau a chasgliadau wedi'u modelu'n rhagfynegol gael eu hadolygu gan gymheiriaid.
- Mae angen casglu tystiolaeth bellach ar statws poblogaethau mulfrain a hwyaid danheddog a phoblogaethau pysgod yng Nghymru.
- Mae angen ystyried a lliniaru lefel ansicrwydd allbynnau wedi'u modelu'n rhagfynegol.

C64. Oes gennych unrhyw farn ar gymhwyso trothwy trwyddedu sy'n gosod terfyn ar nifer y mulfrain a hwyaid danheddog y gellir eu trwyddedu i gael eu rheoli yng Nghymru, ar sail modelu poblogaeth?

- Dylid mabwysiadu ymagwedd wyddonol a seiliedig ar dystiolaeth at ddatblygu a chymhwyso trothwyon trwyddedu.
- Dylid adolygu'r trothwyon arfaethedig ar gyfer rheoli mulfrain a hwyaid danheddog yn farwol.
- Dylai fod cyfyngiadau ar nifer yr adar a reolir er mwyn sicrhau nad yw rheolaeth farwol yn cael effaith negyddol ar statws cadwraeth mulfrain neu hwyaid danheddog.
- Mae angen difa poblogaethau mulfrain a/neu hwyaid danheddog o fewn dalgylchoedd a nodwyd.
- Mae angen nodi ac ystyried ansicrwydd allbynnau wedi'u modelu'n rhagfynegol i bennu trothwyon.

C65. Oes gennych unrhyw farn ar ddefnyddio trwyddedau ardal neu ddalgylch ar gyfer rheoli mulfrain a hwyaid danheddog yn farwol yng Nghymru?

- Mae diogelu afonydd eogiaid pwysig, yn enwedig gwelyau silio a chrynnodiadau gleisiaid, yn gyfiawnhad da dros gyflwyno trwyddedau ar raddfa afon/dalgylch.
- Dylid ystyried y dull ar afon Wysg fel model ar gyfer cwmpas a chymhwysiad trwyddedu seiliedig ar ardal.
- Mae angen hyblygrwydd o ran cwmpas, graddfa a gweinyddiaeth trwyddedu seiliedig ar ardal.
- Rhaid i drwyddedau seiliedig ar afonydd/dalgylchoedd gael eu hategu gan dystiolaeth.
- Mae pryderon y bydd adar yn cael eu dadleoli/symud i ardaloedd sensitif eraill y tu allan i'r ardal drwyddedu.
- Dylid ystyried trwyddedau dosbarth fel opsiwn amgen.
- Byddai trwyddedu ardal ddaearyddol fwy yn lleihau nifer y trwyddedau unigol y mae angen i CNC eu prosesu.
- Mae trwyddedau sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd yn rhy eang a gallant fod yn agored i gael eu camddefnyddio.

C66. Oes gennych farn ar effeithiolrwydd dulliau anfarwol a marwol ar gyfer reoli mulfrain a hwyaid danheddog?

- Yr angen am reolaeth farwol a manteision hynny:
 - ymarferol, cymesur ac effeithiol;
 - lleihau pwysau ysglyfaethu ar bysgodfeydd yn genedlaethol ac yn lleol;
 - nid oes ateb boddhaol arall i leihau effaith ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod ar stociau pysgod;
 - mae dulliau nad ydynt yn farwol yn symud y broblem i rywle arall, o bosibl i safleoedd sensitif eraill lle nad yw rhywogaethau pysgod yn gallu gwrthsefyll pwysau ysglyfaethu.
- Yr angen am fesurau nad ydynt yn farwol a'u manteision:
 - gellir cymhwyso dulliau atal nad ydynt yn farwol yn llwyddiannus;
 - gallai caniatáu rheolaeth farwol lesteirio datblygiad mesurau nad ydynt yn farwol a chasglu tystiolaeth i ddangos effeithiolrwydd;
 - dylid rhoi pwyslais ar adfer cydbwysedd naturiol mewn ecosystem, sy'n fwy cynaliadwy ac effeithiol yn y tymor hir na rheolaeth farwol.

C67 Oes gennych farn ar yr angen am gynlluniau rheoli i gefnogi ceisiadau am drwyddedau penodol ar gyfer rheoli mulfrain neu hwyaid danheddog yn farwol?

- Cymorth i gynlluniau rheoli:
 - byddent yn helpu i sicrhau bod trwyddedau penodol yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol;
 - dylent ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol a pherthnasol, gan gynnwys yn benodol bod yr ymgeisydd wedi ystyried yr holl opsiynau rheoli, gan gynnwys dull, amllder ac effeithiolrwydd technegau nad ydynt yn farwol.
- Beirniadaeth o gynlluniau rheoli:
 - yn ddiangen o fiwrocraidaidd a beichus;
 - mesur gor-reoleiddiol a fyddai'n gosod cyfyngiadau ychwanegol ar fesurau rheoli;
 - anodd eu monitro a'u gorfodi.
- Dylid cyfyngu'r defnydd o gynlluniau rheoli i fuddiant pysgodfeydd penodol, er enghraifft, pysgodfeydd gwyllt heb eu stocio neu ddyfroedd llonydd.
- Dylai CNC arwain y gwaith o reoli adar sy'n bwyta pysgod fel rhan o strategaethau rheoli pysgodfeydd Cymru.

Rhywogaethau adar estron goresgynnol

Cwestiynau 68 a 69: Trwyddedu rheolaeth farwol ar rywogaethau adar estron goresgynnol

Rydym yn bwriadu parhau i roi trwyddedau cyffredinol sy'n caniatáu i hwyaid coch a gwyddau Canada gael eu lladd neu eu cymryd. Fe wnaethom gynnig y dylid ystyried trwyddedau cyffredinol sy'n caniatáu i reoli unrhyw rywogaethau adar estron eraill mewn ffordd farwol, pan fo'r angen yn codi.

C68. Ydych chi'n cytuno y dylen ni barhau i awdurdodi rheolaeth hwyaid coch a gwyddau Canada o dan drwyddedau cyffredinol?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Mae hwyaid coch yn agos i ddiplannu o'r DU, a bydd cadw'r drwydded gyffredinol yn helpu i sicrhau hyn.
- Mae gwyddau Canada yn achosi difrod sylweddol i gnydau a glaswelltir.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Dylid rheoli'r rhywogaethau hyn o dan drwyddedau penodol, a dim ond pan fydd tystiolaeth o broblem.
- Mae diffyg monitro a chasglu data digonol ar nifer yr adar sy'n cael eu lladd o dan drwyddedau cyffredinol. Mae trwyddedau cyffredinol yn awdurdodi gweithredu mympwyol diwahaniaeth heb unrhyw atebolrwydd.
- Ni ddylai CNC fod yn rhoi trwyddedau sy'n caniatáu lladd adar.
- Dylid ystyried dulliau nad ydynt yn farwol ar gyfer gwyddau Canada, a dylid derbyn y bydd yr adar yn mudo'n naturiol i ardaloedd newydd.

C69. Ydych chi'n cytuno â'r dull rydym yn ei gynnig mewn perthynas â rhywogaethau adar gwyllt estron goresgynnol eraill?

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'cytuno'

- Dylid adolygu a diweddarau GL005 yn rheolaidd mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol eraill.
- Dim ond os oes rhaglen ddileu genedlaethol y dylai rhywogaethau estron goresgynnol fod ar drwyddedau cyffredinol.
- Nid trwydded gyffredinol o reidrwydd yw'r dull gorau o fynd ar drywydd dileu rhywogaeth gan nad oes system adrodd. Byddai defnyddioldeb trwyddedau cyffredinol yn y cyd-destun hwn yn cael ei wella'n fawr drwy gael gofyniad adrodd, fel arall ni fyddai modd asesu effeithiolrwydd y mesurau rheoli.
- Rhaid cael tystiolaeth wyddonol bod rhywogaeth yn achosi niwed mewn gwirionedd cyn ei chynnwys ar drwydded gyffredinol.
- Canllawiau gan Brif Swyddog Milfeddygol Cymru mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol yw 'find it fast' a chymryd camau prydlon.
- Dylid cael dull ledled Prydain Fawr o reoli rhywogaethau estron goresgynnol yn hytrach na bod Cymru, Lloegr a'r Alban yn defnyddio dulliau gwahanol.

Themâu yn yr ymatebion sy'n 'anghytuno'

- Mae dull gweithredu arfaethedig CNC yn ei gadael yn rhy hwyr:
 - dylai rhywogaethau eraill fod ar drwyddedau cyffredinol yn barod at pan fydd problem yn codi, yn hytrach nag aros nes bod y rhywogaeth yn bresennol, er mwyn caniatáu gweithredu ar unwaith – erbyn i rywogaeth gael ei hystyried yn oresgynnol, gall fod yn rhy hwyr (rhoddwyd enghraifft o barotanod yn ne Lloegr);
 - mae rhywogaethau estron goresgynnol eraill eisoes wedi'u cynnwys ar drwyddedau cyffredinol yn Lloegr – o ystyried bod gennym strategaeth rhywogaethau estron ledled Prydain Fawr, nid oes rheswm da dros beidio â gwneud yr un peth yng Nghymru;

- cyn gynted ag y bydd y cynllun wrth gefn generig ar gyfer Fertebratau Daearol Estron Goresgynnol (Cymru) wedi'i gwblhau, dylai CNC gyhoeddi trwydded gyffredinol ar gyfer mainaod cyffredin, brain tŷ o'r India, ibisiaid cysegredig a pharotanol mynach;
- dylid ychwanegu gwyddau yr Aifft at drwyddedau cyffredinol i warchod cnydau a gwarchod adar gwyllt.
- Anghytuno gyda chaniatáu rheolaeth farwol ar rywogaethau estron goresgynnol:
 - dylid defnyddio dulliau rheoli tir gwell a dulliau nad ydynt yn farwol yn hytrach na lladd;
 - ni ddylai rhywogaethau estron gael eu lladd o gwbl – mae gan bopeth hawl i fyw;
 - adar hela wedi'u bridio mewn caethiwed / wedi'u rhyddhau (ffesantod a phetris) yn achosi mwy o niwed na gwyddau Canada a rhywogaethau estron eraill.
- Mae newid yn yr hinsawdd yn ffactor sy'n cyfrannu at rywogaethau estron goresgynnol yn sefydlu eu hunain yng Nghymru.
- Gallai ychwanegu rhywogaethau at drwydded gyffredinol hanner ffordd drwy'r flwyddyn achosi dryswch sylweddol i ddefnyddwyr trwyddedau.

Materion eraill yn ymwneud â sut mae CNC yn rheoleiddio rheolaeth farwol ar adar gwyllt

Cwestiwn 70: Safbwyntiau neu sylwadau eraill

Gofynnwyd am unrhyw farn arall ynghylch sut yr ydym yn rheoleiddio rheolaeth farwol ar adar gwyllt yng Nghymru nad ydynt wedi'u darparu mewn ymateb i unrhyw un o gwestiynau blaenorol yr ymgynghoriad.

C70. Oes gennych chi unrhyw farn neu wybodaeth arall rydych yn meddwl sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yr hoffech ei rhannu â ni?

Themâu yn ymwneud â thystiolaeth

- Dylai dyroddi trwyddedau fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r broblem a data gwyddonol:
 - ar hyn o bryd, mae diffyg data gwyddonol sy'n cyfiawnhau lladd adar;
 - dylai CNC fod yn buddsoddi mwy mewn adolygu llenyddiaeth wyddonol ac adolygu effeithiolrwydd dulliau atal;
 - mae angen tystiolaeth bod cynnal rheolaeth farwol o dan drwydded gyffredinol mewn gwirionedd yn cyflawni'r amcan/amcanion dymunol.

- Dylai CNC fod yn ystyried gwybodaeth ac arbenigedd ymarferwyr sy'n defnyddio'r trwyddedau cyffredinol yng Nghymru fel tystiolaeth, ochr yn ochr â data gwyddonol.
- Dylai CNC fod yn edrych ar lwybrau hedfan a phoblogaethau cenedlaethol, ac yn ceisio deall yr amrywiadau amgylcheddol a hinsoddol naturiol a adlewyrchir mewn tueddiadau o ran poblogaethau adar.

Themâu yn ymwneud â chymorth eang i drwyddedau cyffredinol

- Gallai newid y trwyddedau cyffredinol sydd wedi bod yn eu lle ers blynyddoedd lawer fygwth ein fflora a ffawna cefn gwlad. Heb drwyddedau cyffredinol, bydd ffermwyr yn colli cnydau a da byw.
- Gan fod trwyddedau cyffredinol CNC yn cael eu hystyried yn gyfreithiol yn y llys, dylai unrhyw newidiadau fod yn finimalaidd iawn ac ni ddylent wyro'n sylweddol oddi wrth y trwyddedau presennol.
- Dylid rheoli adar o dan drwydded cyffredinol bob diwrnod o'r flwyddyn, ac ni ddylid ei gyfyngu i ddyddiadau/cyfnodau penodol o'r flwyddyn.

Themâu yn ymwneud â beirniadaeth eang o drwyddedau cyffredinol

- Ymddengys fod trwyddedau cyffredinol yn eu fformat presennol yn rhoi sancsiwn cyfreithiol i bobl hela adar er pleser yn hytrach nag am resymau dilys. Dylai CNC ystyried rhoi trwyddedau penodol yn lle hynny.
- Nid yw'r system trwyddedau cyffredinol wedi'i hategu gan unrhyw wyddoniaeth neu dystiolaeth drylwyr, ac nid yw'n addas i'r diben. Nid oes unrhyw ffordd o wybod faint o bobl sy'n defnyddio'r trwyddedau, nifer yr adar sy'n cael eu lladd na pha rywogaeth.
- Nid yw CNC yn darparu unrhyw wybodaeth am y buddion cadwraeth sydd i fod i ddeillio o ladd adar gwyllt at ddibenion cadwraeth.
- Mae CNC yn rhoi amodau ar drwyddedau cyffredinol, ond nid oes unrhyw ffordd o wybod a yw unigolion yn cydymffurfio â'r amodau hynny, gan nad yw CNC yn gwybod pwy sy'n defnyddio'r trwyddedau ac nid yw'n eu monitro a'u gorfodi.
- Mae angen ailwampio'r system drwyddedu yn gyfan gwbl a dylid dod â thrwyddedau cyffredinol i ben.

Awgrymiadau ar sut mae trwyddedau cyffredinol yn cael eu rhoi a'u defnyddio

- Mae gan wahanol leoliadau broblemau gwahanol. Efallai na fydd trwydded cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan yn briodol.
- Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau cyffredinol yn unol ag egwyddorion moesegol ar gyfer rheoli bywyd gwyllt. Mae hyn yn cynnwys adolygu ymddygiad dynol i benderfynu a ellir lliniaru'r gwrthdaro sy'n gofyn am reolaeth farwol trwy newidiadau mewn ymddygiad dynol, er enghraifft rheoli gwastraff bwyd.

- Os bydd CNC yn rhoi trwyddedau cyffredinol, dylai saethwyr/defnyddwyr allu nodi gwahanol rywogaethau'n glir. Dylai CNC helpu gyda hyn.
- Nid oes gan lawer o ddefnyddwyr trwyddedau cyffredinol fynediad i gyfrifiaduron ac argraffwyr. Dylid ystyried hyn wrth roi unrhyw drwyddedau cyffredinol yn y dyfodol, er mwyn gwneud profiad y defnyddiwr mor hawdd â phosibl.
- Rhaid i'r trwyddedau cyffredinol fod yn ymarferol i ddefnyddwyr ar lawr gwlad a rhaid iddynt fod yn glir ac yn hawdd eu deall.

Themâu yn ymwneud â thrwyddedau penodol

- Dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth wyddonol o angen, a manylion am rywogaethau, niferoedd, lleoliad, amserlenni, dulliau a manylion personél. Mae angen i atebolrwydd fod yn fwy amlwg ac mae angen adborth.
- Os gwrthodir cais, dylid rhoi rhesymau clir i'r ymgeisydd am pam y gwrthodwyd y drwydded, a chael mynediad i broses apelio.
- Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fodd i'r cyhoedd ddeall nifer y trwyddedau a roddwyd neu nifer yr adar a laddwyd neu wyau/nythod a gymerwyd neu a ddinistriwyd mewn unrhyw flwyddyn benodol oni bai eu bod yn mynd drwy'r llwybr Rhyddid Gwybodaeth neu drwy'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sy'n gwneud iddo ymddangos fel pe bai CNC yn cuddio'r wybodaeth hon.
- Dylai CNC gyhoeddi adroddiad blynyddol ar drwyddedu adar gwyllt.

Themâu yn ymwneud â rheoli rhywogaethau penodol

- Mae angen rhoi sylw brys i reoli mulfrain a hwyaid danheddog er mwyn diogelu stociau pysgod mudol.
- Dylid cynnwys ydfrain ar drwydded gyffredinol cadwraeth gan eu bod yn ysglyfaethu adar bach.
- Mae pïod, brain a gwylanod i'w gweld mewn grwpiau mawr. Fodd bynnag, prin y gwelir ji-bincod, cochiaid y berllan a llinosod gwyrdd oherwydd bod gwylanod/brain/pïod yn ysglyfaethu arnynt.
- Dylid cynnwys pob rhywogaeth estron oresgynnol ar drwydded gyffredinol.
- Nid yw ibisiaid cysegredig yn achosi niwed sylweddol ac ni ddylid eu rheoli dan drwydded gyffredinol. Mae ond yn rhyngfridio â'r ibis coch, nad yw'n rhywogaeth yn y DU.

Themâu yn ymwneud â defnyddio dulliau marwol yn erbyn dulliau nad ydynt yn farwol

- Dylid bob amser hyrwyddo a blaenoriaethu dulliau nad ydynt yn farwol.

- Dylid lladd adar fel y dewis olaf bob amser, ond nid yw'n ymddangos mai dyma'r achos. Ymddengys ei bod yn rhatach lladd adar fel y dewis cyntaf.
- Dylai CNC ganolbwyntio ei ymdrech ar reoli tir yn hytrach nag awdurdodi lladd adar.
- Bu treialon dulliau nad ydynt yn farwol o atal gwylanod yn llwyddiannus yn yr Alban y llynedd, a dylid rhoi cynnig arnynt yng Nghymru.
- Ni ddylid lladd anifeiliaid o gwbl. Ar y gorau, dim ond ateb tymor byr y mae dulliau marwol yn ei ddarparu.
- Mae rhagdybiaeth yn yr ymgynghoriad bod rheolaeth farwol yn arf rheoli derbyniol. Dylai cydbwysedd naturiol fod yn nod hirdymor.
- Nid oes unrhyw ffyrdd trugarog o ddal unrhyw anifeiliaid nac adar.

Themâu yn ymwneud ag adar hela

- Ni ddylid gwneud unrhyw ddarpariaethau trwyddedu ar gyfer diogelu adar hela sy'n cael eu rhyddhau fel ffesantod a phetris coesgoch. Nid oes unrhyw ddata gwyddonol i gefnogi hyn ac mae'r rhywogaethau hyn bron yn rhywogaethau estron goresgynnol eu hunain.
- Mae'r diwydiant saethu helwriaeth eisoes yn cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol, trwy fridio a rhyddhau niferoedd enfawr o adar hela estron bob blwyddyn a thrwy'r defnydd eang o beledi plwm.

Atodiad 1: Nifer yr ymatebwyr fesul cwestiwn

Cwestiwn yr ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall	
		Ydw/Oes	Nac ydw / Nac oes		
Cynigion sy'n ymwneud â'n dull cyffredinol o drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt					
Trwyddedau cyffredinol					
7	Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddorion rydym yn eu cynnig ar gyfer penderfynu a ddylid dyroddi trwydded gyffredinol?	612 (96)	71	29	Amh.
8	Ydych chi'n meddwl bod egwyddorion neu brofion eraill y dylem eu defnyddio cyn penderfynu dyroddi trwydded gyffredinol?	247 (40)	52	48	Amh.
9	Ydych chi'n meddwl bod pïod yn addas i'w cynnwys ar drwyddedau cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni'r dirywiad yn eu poblogaeth yng Nghymru?	614 (99)	21	79	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad		Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall
			Ydw/Oes	Nac ydw / Nac oes	
9b	Os gwnaethoch ateb 'Nac ydw' i Gwestiwn 9, beth rydych yn meddwl y dylen ni ei wneud...?	485 (78)	Amh.	Amh.	(1) Peidio â chynnwys pïod ar drwyddedau cyffredinol yn syth, fel na fyddent yn cael eu cynnwys ar unrhyw drwyddedau cyffredinol rydym yn eu dyroddi yn 2022: 90% (2) Aros nes y cyhoeddir asesiad nesaf BoCC Cymru cyn gwneud y penderfyniad: 4% (3) Defnyddio dull arall: 6%
10	Ydych chi'n meddwl bod rhywogaethau eraill a allai fod yn addas i'w cynnwys ar drwydded gyffredinol?	607 (98)	17	83	Amh.
11	Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol fod yn destun adolygiad rheolaidd?	612 (99)	95	5	Amh.
12	Ydych chi'n cytuno â'r ffordd yr ydym yn bwriadu cynnal adolygiad rheolaidd o drwyddedau cyffredinol?	604 (97)	17	83	Amh.
13	Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol barhau i gael eu dyroddi am flwyddyn, a bod yn gymwys rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr?	610 (98)	79	21	Amh.
14	Oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch adolygu ac ailddyroddi trwyddedau cyffredinol yn rheolaidd?	251 (40)	35	65	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad		Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall
			Ydw/O es	Nac ydw / Nac oes	
15	Oes gennych unrhyw sylwadau ar fformat trwyddedau cyffredinol neu unrhyw awgrymiadau ar sut mae modd i ni wella eu cyflwyniad?	599 (96)	80	20	Amh.
16	Ydych chi'n cytuno y dylai unigolyn a awdurdodwyd gan berchennog neu feddiannwr tir i gymryd camau o dan drwydded gyffredinol gael ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan berchennog neu feddiannwr y tir?	610 (98)	84	16	Amh.
17	Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol gynnwys amod sy'n gofyn i ddefnyddwyr geisio mynd i'r afael â'r broblem yn y lle cyntaf gan ddefnyddio dulliau anfarwol gwahanol, a pharhau i wneud ymdrechion rhesymol i wneud hynny?	614 (99)	80	20	Amh.
18	Ydych chi'n cytuno y dylai defnyddwyr trwyddedau cyffredinol dderbyn cyngor i gadw cofnodion o'r camau gweithredu maent wedi'u cymryd dan y trwyddedau?	611 (98)	23	77	Amh.
19	Ydych chi'n cytuno â'n dull arfaethedig o fynd i'r afael â gofynion safleoedd gwarchoddedig wrth roi trwyddedau cyffredinol?	600 (97)	84	16	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad		Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall
			Ydw/Oes	Nac ydw / Nac oes	
20	Ydych chi'n cytuno gyda'r rhestr o safleoedd a chlustogfeydd rydym yn cynnig na ddylai trwyddedau cyffredinol fod yn berthnasol iddynt?	199 (32)	46	54	Amh.
Trwyddedau penodol					
21	Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am sut gallai'r broses o gyflwyno cais am drwydded benodol, gan gynnwys y ffurflenni cais, gael ei gwella?	200 (32)	37	63	Amh.
22	Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am sut i wella'r gofyniad i ddarparu adroddiadau ar weithgareddau a wnaed dan drwyddedau penodol, gan gynnwys y ffurflenni adrodd?	196 (32)	26	74	Amh.
Trwyddedu defnyddio dulliau marwol					
23	Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion trosfwaol rydym wedi'u nodi ar gyfer penderfynu pa ddulliau y dylid eu trwyddedu ar gyfer lladd neu gymryd adar gwyllt a'r dulliau na ddylid eu trwyddedu?	189 (30)	65	35	Amh.
24	Ydych chi'n meddwl bod materion eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa	181 (29)	35	65	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall	
		Ydw/O es	Nac ydw / Nac oes		
	ddulliau y dylid eu trwyddedu a pha rai na ddylid eu trwyddedu?				
25	Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol a ddyroddir gan CNC ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt ganiatáu'r defnydd o'r HOLL ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd gan adran 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981?	184 (30)	81	19	Amh.
26	Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw drwyddedau cyffredinol sy'n cael eu dyroddi gan CNC barhau i alluogi'r defnydd o arfau lled-awtomatig a maglau cawell?	194 (31)	73	27	Amh.
27	Ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu unrhyw ddull a ganiateir o dan drwyddedau cyffredinol hefyd, os gwneir cais amdano, dan drwyddedau penodol?	184 (30)	88	12	Amh.
Rheoleiddio'r defnydd o faglau cawell					
28	Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau cyffredinol a phenodol CNC nodi'r mathau o faglau cawell y gellir eu defnyddio?	586 (94)	91	9	Amh.
29	Ydych chi'n cytuno gyda'r mathau o faglau cawell, a'u manylebau, rydym yn bwriadu eu hawdurdodi i'w defnyddio dan unrhyw	579 (93)	91	9	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall	
		Ydw/O es	Nac ydw / Nac oes		
	drwyddedau cyffredinol rydym yn eu dyroddi?				
30	Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i beidio â chaniatáu'r defnydd o abwyd cig dan unrhyw drwyddedau cyffredinol a ddyroddir gan CNC?	582 (94)	82	18	Amh.
31	Ydych chi'n cytuno bod parhau i ganiatáu'r defnydd o gig wedi'i dorri fel bwyd i adar denu yn cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng lliniaru'r risg o ddal rhywogaethau heb eu targedu a lles adar denu?	567 (91)	86	14	Amh.
32	Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau gynnwys amod sy'n gofyn bod adar sy'n cael eu dal o'r rhywogaethau targed yn cael eu lladd o olwg adar eraill sydd wedi'u dal ac adar denu, ac eithrio mewn perthynas â maglau lluosog?	574 (92)	86	14	Amh.
33	Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi disgrisiwn i ddefnyddwyr maglau lluosog ladd adar sydd wedi'u maglu o fewn golwg adar eraill lle maent yn ystyried y byddai'r oedi a'r trin ychwanegol wrth eu symud o'r golwg i ladd pob aderyn yn peri mwy o drallod?	556 (90)	60	40	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad		Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall
			Ydw/Oes	Nac ydw / Nac oes	
34	Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i ddefnyddwyr maglau ladd adar sydd wedi'u maglu (y rhywogaeth darged) cyn gynted ag sy'n rhesymol ar ôl eu darganfod?	579 (93)	98	2	Amh.
35	Ydych chi'n cytuno y dylai trwyddedau CNC nodi, fel amod trwydded, y materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar bob archwiliad magl cawell?	581 (94)	93	7	Amh.
36	Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i nodi y dylai 25 awr ar y mwyaf gael ei adael rhwng archwiliadau?	573 (92)	51	49	Amh.
37	Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i gynnwys amod sy'n gwahardd y defnydd o adar y mae eu hadenydd wedi'u tocio fel denwyr mewn maglau cawell?	580 (93)	92	8	Amh.
38	Ydych chi'n cytuno y dylen ni gyflwyno trwydded gyffredinol ddynodedig sy'n cynnwys amodau a thelerau safonol ar gyfer y defnydd o faglau cawell?	578 (43)	88	12	Amh.
39	Oes gennych farn ar a fyddai cynllun gorfodol ar gyfer cofrestru a thagio maglau yng Nghymru yn fuddiol?	582 (94)	87	13	Amh.
40	Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau eraill ar y dull y dylai CNC ei ddefnyddio i	570 (92)	83	17	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall	
		Ydw/O es	Nac ydw / Nac oes		
reoleiddio'r defnydd o faglau cawell ar gyfer rheolaeth farwol adar gwyllt?					
Ystyried dulliau rheoleiddiol eraill					
41	A oes gennych unrhyw farn ar feysydd trwyddedu rheoli adar gwyllt lle gallai fod yn fuddiol defnyddio dull amgen o ymdrin â thrwyddedau penodol a chyffredinol?	207 (33)	33	67	Amh.
Cynigion sy'n ymwneud â'n dull o drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt mewn cyd-destunau penodol					
Atal difrod difrifol neu ledaeniad clefydau i dda byw, bwydydd, cnydau, llyisiau neu ffrwythau					
42	Ydych chi'n cytuno y dylen ni barhau i ddyroddi trwydded gyffredinol unigol ar gyfer atal difrod difrifol?	212 (34)	71	29	Amh.
43	Ydych chi'n cytuno y dylai trwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol nodi pa gyfuniadau penodol o 'rywogaethau a dibenion' sy'n cael eu hawdurdodi ar gyfer rheolaeth farwol?	204 (33)	51	49	Amh.
44	Oes gennych unrhyw sylwadau ar y cyfuniadau penodol o rywogaethau a dibenion rydym yn cynnig eu hawdurdodi	187 (30)	26	74	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall	
		Ydw/O es	Nac ydw / Nac oes		
	ar gyfer rheolaeth farwol er mwyn atal difrod difrifol?				
45	Ydych chi'n cytuno na ddylai trwydded gyffredinol ar gyfer atal difrod difrifol nodi terfynau ar yr adegau o'r flwyddyn y gellir defnyddio'r drwydded?	207 (33)	67	33	Amh.
46	Ydych chi'n cytuno gyda'r ffordd rydym yn cynnig parhau i ddiffinio da byw?	180 (29)	76	24	Amh.
Cadwraeth adar gwyllt, anifeiliaid neu blanhigion					
47	Ydych chi'n cytuno gyda'n hegwyddorion arfaethedig ar gyfer trwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion cadwraeth?	559 (90)	19	81	Amh.
48	Ydych chi'n meddwl bod unrhyw egwyddorion eraill y dylen ni eu dilyn wrth benderfynu ar ddyroddi trwyddedau at ddibenion cadwraeth?	167 (27)	44	56	Amh.
49	Ydych chi'n meddwl y dylen ni wneud y canlynol?	580 (93)	Amh.	Amh.	(1) Cadw trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth: 22% (2) Peidio â rhoi trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth: 72% (3) Casglu tystiolaeth ar ddefnyddio GL3 cyn

Cwestiwn yr ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall	
		Ydw/O es	Nac ydw / Nac oes		
				gwneud unrhyw newidiadau: 3% (4) Mabwysiadu dull arall: 3%	
50	Ydych chi'n cytuno mai'r sail fwyaf priodol ar gyfer nodi rhywogaeth fuddiol trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt yw: rhywogaethau sydd ar y rhestr goch neu oren sy'n bridio'n rheolaidd yng Nghymru ac sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed gan ysglyfaethwyr sy'n perthyn i un neu'n fwy o'r rhywogaethau brain dan sylw?	585 (94)	90	10	Amh.
51	Ydych chi'n cytuno y dylai trwydded gyffredinol at ddiben cadwraeth adar gwyllt barhau i fod yn gyfyngedig i gadwraeth cywion neu wyau'r rhywogaeth fuddiol yn unig?	577 (93)	82	18	Amh.
52	Ydych chi'n credu na ddylai trwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt gynnwys cyfyngiadau ar adeg y flwyddyn pan fo modd dibynnu ar drwydded?	584 (94)	79	21	Amh.
53	Ydych chi'n cytuno na ddylai brain tyddyn barhau i gael eu cynnwys ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt?	584 (94)	28	72	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad		Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall
			Ydw/Oes	Nac ydw / Nac oes	
54	Ydych chi'n cytuno y dylai sgrech y coed barhau i gael eu cynnwys ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt, ond mewn perthynas â chadwraeth rhywogaethau adar coetir yn unig?	588 (95)	18	82	Amh.
55	Ydych chi'n cytuno na ddylai jac-dos gael eu cynnwys bellach ar drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth adar gwyllt?	588 (95)	40	60	Amh.
56	Ydych chi'n meddwl bod pïod yn addas i'w cynnwys ar drwydded gyffredinol at ddiben gwarchod adar gwyllt yng ngoleuni'r dystiolaeth o'u heffaith?	587 (95)	22	78	Amh.
Diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd ac atal lledaeniad clefydau					
57	Ydych chi'n cytuno y dylen ni barhau i ddyroddi trwydded gyffredinol sy'n caniatáu rheolaeth farwol colomennod gwyllt at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd?	258 (42)	76	24	Amh.
58	Ydych chi'n cytuno na ddylem ddyroddi trwydded gyffredinol at ddibenion iechyd y cyhoedd sy'n caniatáu rheolaeth farwol unrhyw rywogaeth ac eithrio colomennod gwyllt?	249 (40)	44	56	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad		Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall
			Ydw/O es	Nac ydw / Nac oes	
59	Ydych chi'n cytuno y dylai CNC ofyn am gynllun rheoli gwylanod fel rhan o unrhyw gais am drwydded i reoli gwylanod mewn sefyllfa drefol?	255 (41)	69	31	Amh.
Gwarchod diogelwch yn yr awyr					
60	Ydych chi'n cytuno y dylai CNC barhau i drwyddedu rheolaeth farwol adar gwyllt at ddibenion gwarchod diogelwch yn yr awyr drwy drwyddedau penodol?	247 (40)	73	27	Amh.
61	Ydych chi'n cytuno bod angen i geisiadau i reoli adar at ddibenion diogelwch yn yr awyr gynnwys cynllun rheoli priodol ar gyfer sut y bydd risgiau i fywyd gwyllt ar safle'r maes glanio yn cael eu rheoli?	258 (42)	85	15	Amh.
Adar sy'n bwyta pysgod					
62	Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw waith i reoli mulfrain neu hwyaid danheddog yn farwol at ddibenion atal difrod difrifol i bysgodfeydd neu ar gyfer cadwraeth fflora neu ffawna fod yn destun trwyddedau penodol?	304 (49)	64	36	Amh.

Cwestiwn yr ymgynghoriad	Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall	
		Ydw/Oes	Nac ydw / Nac oes		
63	Oes gennych unrhyw farn ar ddatblygu a defnyddio offeryn modelu dadansoddi hyfywedd poblogaeth i ragfynegi effaith lefelau gwahanol o reolaeth farwol drwyddedig ar boblogaethau mulfrain a hwyaid danheddog yng Nghymru?	235 (38)	39	61	Amh.
64	Oes gennych unrhyw farn ar gymhwyso trothwy trwyddedu sy'n gosod terfyn ar nifer y mulfrain a hwyaid danheddog y gellir eu trwyddedu i gael eu rheoli yng Nghymru, ar sail modelu poblogaeth?	237 (38)	46	54	Amh.
65	Oes gennych unrhyw farn ar ddefnyddio trwyddedau ardal neu ddalgylch ar gyfer rheoli mulfrain a hwyaid danheddog yn farwol yng Nghymru?	220 (35)	40	60	Amh.
66	Oes gennych farn ar effeithiolrwydd dulliau anfarwol a marwol ar gyfer reoli mulfrain a hwyaid danheddog?	226 (36)	45	55	Amh.
67	Oes gennych farn ar yr angen am gynlluniau rheoli i gefnogi ceisiadau am drwyddedau penodol ar gyfer rheoli mulfrain neu hwyaid danheddog yn farwol?	227 (37)	47	53	Amh.
Rhywogaethau adar estron goresgynnol					

Cwestiwn yr ymgynghoriad		Nifer yr ymatebion (% pob ymateb)	% yr ymatebion		Arall
			Ydw/Oes	Nac ydw / Nac oes	
68	Ydych chi'n cytuno y dylen ni barhau i awdurdodi rheolaeth hwyaid coch a gwyddau Canada o dan drwyddedau cyffredinol?	263 (42)	69	31	Amh.
69	Ydych chi'n cytuno â'r dull rydym yn ei gynnig mewn perthynas â rhywogaethau adar gwyllt estron goresgynnol eraill?	230 (37)	64	36	Amh.
Materion eraill yn ymwneud â sut mae CNC yn rheoleiddio rheolaeth farwol ar adar gwyllt					
70	Oes gennych chi unrhyw farn neu wybodaeth arall rydych yn meddwl sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yr hoffech ei rhannu â ni?	361 (58)	34	66	Amh.

Atodiad 2: Sefydliadau a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad

- Airbus UK
- Angling Trust
- Animal Aid
- Animal and Wildlife Solutions
- British Association for Shooting and Conservation
- British Pest Control Association
- Bryn Bach Angling Club
- Catholic Action for Animals / Also Laudato Si Group, a parish green group
- Coetir Anian
- Countryside Alliance
- Country Land and Business Association Cymru
- Crogen
- Farmers' Union of Wales
- Game and Wildlife Conservation Trust
- Game Farmers' Association
- Humane Wildlife Solutions
- Imblefield Farms Ltd, including A/R Pest Control
- International Wildlife Bond
- Killgerm Chemicals Ltd
- Nanhoron Estate
- NFU Cymru
- National Gamekeepers' Organisation
- North Wales Rivers Trust
- Richard Thomas and Co. (Hydro) Ltd
- Royal Society for the Protection of Birds Cymru
- Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals
- Salmon & Trout Conservation Cymru
- Tawe and Tributaries Angling Association
- Welsh Ornithological Society
- Welsh Pest Control
- Wild Justice
- Wildlife Trusts Wales